
Teitl y cyfarfod: **Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn Gyhoeddus**

Dyddiad y cyfarfod: **22 Medi 2022**

Amser y cyfarfod: **10.00-14.50**

Lleoliad: **Sir y Fflint**

Cyfarfod Microsoft Teams

Ymunwch ar eich cyfrifiadur, eich ap symudol neu ddyfais eich ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymuno ar y we](#)

Neu ffoniwch i mewn (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,493072433#](tel:+442921055545493072433)

Amser

Eitem

**10.00
(5 munud)**

1. Agor y Cyfarfod

- Croeso
- Datgan buddiannau
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**10.05
(5 munud)**

2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu
2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf
2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu.

**10.10
(5 munud)**

3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

**10.15
(15 munud)**

4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B06

10.30
(20 munud)

5. Adroddiadau Diweddaru gan y Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 8 Medi

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – Ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Cyllid – 15 Medi

Y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd – Ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau 13 Medi

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – Ni chynhaliwyd cyfarfod

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B08

Fforwm Rheoli Tir Cymru – 5 Medi

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B09

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, a gafwyd mewn unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd ac a gafwyd y tu allan iddynt.

10.50
(20 munud)

Egwyl

11.10
(15 munud)

6. Adroddiad Chwarter 1 Llesiant, Iechyd a Diogelwch

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a

Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 1 Llesiant, Iechyd a Diogelwch

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B11

11.25
(20 munud)

7. Adroddiad Chwarter 1 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Cynllunio Corfforaethol,

Rheolwr Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams,

Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli

Rhaglenni; Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol,

Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 1 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B10

11.45
(20 munud)

8. Adolygu Penderfyniad ar Helfeydd Dilyn Trywydd

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a

Thrwyddedu

Cyflwynydd: Ieuan Williams, Uwch Syrfêwr Arbenigol

Crynodeb: CYMERADWYO'R adolygiad o'r penderfyniad ar Helfeydd Dilyn Trywydd

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B17

**12.05
(15 munud)**

9. Pwyllgor Ystad Tir CNC Arfaethedig

Noddwr: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO'R trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Pwyllgor Ystad Tir newydd CNC

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B12

**12.20
(5 munud)**

10. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO'R newidiadau i'r SaLS

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B13

**12.25
(40 munud)**

Cinio

**13.05
(50 munud)**

11. Sylfaen Dystiolaeth Ofynnol ar gyfer gwella Ansawdd Dŵr yng Nghymru a Diweddariad Strategol ar y Dystiolaeth

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrydedu
Cyflwynydd: Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth;
Alun Attwood, Rheolwr Monitro ac Adrodd

Crynodeb: TRAFOD y sylfaen dystiolaeth ofynnol ar gyfer gwella Ansawdd Dŵr yng Nghymru a Diweddariad Strategol y Dystiolaeth

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B14

**13.55
(15 munud)**

12. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Thryloywder yng Nghyfarfodydd y Bwrdd

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

Trafodaeth

**14.10
(5 munud)**

13. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B15

**14.15
(5 munud)**

14. UNRHYW FATER ARALL

a) Cylch Gorchwyl y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO Cylch Gorchwyl y Bwrdd

Cyfeirnod y Papur: 22-09-B16

Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd

**14.20
(30 munud)**

Holi ac Ateb Cyhoeddus

14.50

Diwedd y Cyfarfod

**14.50
(10 munud)**

Egwyl

**15.00 i
16.30**

Ymweliad Safle

Arweinydd: Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Y
Gogledd-ddwyrain

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Cymerodd yr holl fynychwyr ran yn y cyfarfod trwy gyfrwng Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	13 Gorffennaf 2022
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Dros Dro Clare Pillman, Prif Weithredwr Karen Balmer Catherine Brown Julia Cherrett Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (yn dirprwyo ar ran Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol) Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De Ddwyrain Cymru (yn dirprwyo ar ran Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)
Mynychwyr ychwanegol a oedd yn bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob Eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid, Eitem 6 Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Eitem 7 Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, Eitem 7 Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad, Eitem 7 Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad, Eitem 7 Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru, Eitem 8 Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Y Strategaeth Ddŵr, Eitem 8 Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy, Eitemau 8 a 9 Geraint Weber, Arweinydd Tîm, Eitemau 8 a 9 Mark Squire, Prif Gynghorydd, Prosiectau Strategol, Eitemau 8 a 9 Rhian Thomas2, Prif Gynghorydd, Prosiectau Strategol, Eitemau 8 a 9

Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, Eitem 10
Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Eitem 10
Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adareg, Eitem 10
David Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw, Eitem 10
Ian Williams, Arweinydd Tîm, Trwyddedu Rhywogaethau (Adar), Eitem 10
Lyn Williams, Cynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg, Eitem 11
Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg, Eitem 12

**Sylwedyddion
CNC:**

Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat (pob eitem)
Meinir Wigley, Arweinydd Tîm, Cyfathrebu Integredig – Eitemau 8 a 9
Joanne Westlake, Uwch-swyddog Cyfathrebu – Eitemau 8 a 9
Martyn Gough, Uwch-swyddog, Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Eitem 10

**Sylwedyddion
Cyhoeddus:**

Dr Callum Macgregor, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain – Cymru
Julian Hughes, Pennaeth Rhywogaethau, RSPB Cymru – Eitem 10
Paul Adams
Richard Garner Williams – WildFish (Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod Cymru)
Tanglewest Douglas – WildFish
Lynda Makepeace – Y Gangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru
Kim Wardell
Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd

Datganiadau:

Yr Athro Steve Ormerod – Is-lywydd yr RSPB; cynhaliwyd gwaith ymchwil gwyddonol ar eogiaid a materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr; Cymrawd y Gymdeithas Fiolegol Dŵr Croyw
Dr Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gynllunio yn nalgylch Cleddau; Ymddiriedolaeth Plantlife – cydweithrediad Natur am Byth a chysylltiadau â Chynffig

Ymddiheuriadau:

Syr David Henshaw
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Ysgrifenyddiaeth:

Jocelyn Benger
Natalie Williams

Eitem 1: Agor y Cyfarfod

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Dros Dro ac estynnwyd croeso i bawb. Datganwyd buddiannau a chyflwynwyd ymddiheuriadau fel y nodir uchod. Esboniodd y Cadeirydd Dros Dro drefn y cyfarfod. Bydd Julia Cherrett yn cadeirio'r eitem yn ymwneud ag Adar sy'n Bwyta Pysgod gan fod yr Athro Steve Ormerod wedi cadeirio'r Grŵp Cynghori ar y mater hwn. Estynnodd y Cadeirydd Dros Dro groeso i Dr Callum Macgregor, Cymdeithas Adareg Prydain – Cymru (BTO), fel sylwedydd a nododd gyfraniad y BTO at arolygon yn ymwneud â dosbarthiad amryfal rywogaethau adar afon yng Nghymru.
2. Nododd y Cadeirydd Dros Dro na fyddai sesiwn holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd yn cael ei chynnal y tro hwn ac esboniodd bod yr arfer o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd yn cael ei adolygu er mwyn datblygu proses fwy cyflawn a chynhwysol. Fodd bynnag, roedd croeso i sylwedyddion cyhoeddus ddefnyddio cyfleuster sgwrsio Microsoft Teams i gyflwyno sylwadau neu ofyn cwestiynau. Tynnwyd sylw at gyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod y Sioe Amaethyddol Frenhinol a'r Eisteddfod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Camau Gweithredu

2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 26 Mai

3. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 26 Mai a chytunwyd ar y newidiadau.

2B. Adolygu'r Cofnod Camau Gweithredu Cyhoeddus

4. Adolygwyd y cofnod camau gweithredu.
5. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau De Ddwyrain Cymru ddiweddariad ynglŷn â Cham Gweithredu 36 a dywedodd fod cyfarfodydd cychwynnol cadarnhaol wedi cael eu cynnal gyda Chytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth (FISA) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Bydd gan CNC rôl yn y dasg o lansio strategaeth newydd FISA ac roedd wedi cael gwahoddiad gan FISA i ymuno ag amryfal is-grwpiau. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau wedi cynnal trafodaethau gyda chwaer-sefydliadau yn Lloegr a'r Alban. Yn ddiweddar, roedd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir wedi cyhoeddi erthygl ar gyfer Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) yn ymwneud â gwella safonau diogelwch yn y maes coedwigaeth.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

6. Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, gan ateb cwestiynau'n ymwneud â'r Adferiad Gwyrdd, galluogi'r sector anllywodraethol amgylcheddol, a llywodraethu amgylcheddol. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Brif Weinidog Cymru er mwyn tynnu sylw at rai o'r gwahaniaethau rhwng llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ac yn Lloegr.
7. Cyfarfu'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Gadeirydd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Gweithredol cyrff cadwraeth natur statudol eraill o'r DU. Ystyriwyd y pwysau sy'n deillio o'r newid gwleidyddol yn Lloegr a nodwyd adolygiad posibl o gyrff amgylcheddol hyd

braich yn Lloegr. Cydnabuwyd y sefydlogrwydd gwleidyddol a'r gefnogaeth i faterion amgylcheddol yng Nghymru ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau a ddarperir gan ehangder cylch gwaith CNC.

8. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at y ffaith nad yw'r Grŵp Adferiad Gwyrdd yn dod oddi mewn i gylch gwaith na chyfrifoldeb CNC yn llwyr. Nodwyd bod y gwaith a'r canlyniadau yn hyn o beth yn mynd y tu hwnt i CNC.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

9. Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad yn ymwneud â'r adroddiad ysgrifenedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y sesiwn nesaf. Dyma'r pum Bil a gynhwysir yn y rhaglen: Diogelwch Tomenni Glo; Amaethyddiaeth; Plastig Untro; Aer Glân; a Seilwaith. Croesawyd y ffocws amgylcheddol, a gwelwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â rôl CNC mewn perthynas â phob Bil. Nodwyd y byddai'r Bil gogyfer llwyr sefydlu rôl Asesydd Amgylcheddol yn lle rôl Cynghorydd Interim yn cael ei ddwyn ymlaen yn sesiwn derfynol y Llywodraeth hon.
10. Cafwyd y diweddaraif ynglŷn â nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Yr wythnos diwethaf, agorwyd Ffordd Goedwig Cwmcarn yn ffurfiol. Ymwelodd Tywysog Cymru â llwybr yr arfordir yn Sir Benfro i ddathlu pen-blwydd y llwybr yn ddeg oed. Croesawodd Zoe Henderson y Gweinidog a gwesteion eraill i agoriad ffurfiol y fferm wynt newydd yng Nghlocaenog. Hefyd, ymwelodd y Gweinidog â'r prosiect gylfinirod ym Mhentrefoelas i drafod y prosiect gyda staff CNC a'r RSPB. Bydd y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn cael ei chynnal yr wythnos nesaf. Bydd stonid arferol CNC yno, a'r tro hwn bydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr. Roedd y Prif Weinidog yn bwriadu cynnal uwchgynhadledd ar ansawdd dŵr a bydd y Gweinidog yn mynychu digwyddiad ar stonid CNC. Roedd CNC yn edrych ymlaen at estyn croeso i'r cyhoedd.
11. Cafwyd y diweddaraif ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran dŵr. Roedd y statws sychder wedi newid o Arferol i Dywydd Sych Estynedig; caiff hyn ei fonitro'n ofalus. Bydd y Cynllun Sychder ar gyfer dalgylchoedd De Cymru yn cael ei ddilyn. Mae'r cyswllt agos gyda'r cwmnïau dŵr yn parhau a chyhoeddwyd cyfyngiadau ar bysgota.
12. Disgrifiwyd y sefyllfa bresennol o ran ynni adnewyddadwy ar y môr. Ar hyn o bryd, mae 34 o geisiadau ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y môr yn nwylo CNC. Yr wythnos diwethaf, cyflwynodd CNC sylwadau ffurfiol yn ymwneud â chais caniatâd datblygu Awel y Môr, a bydd yr ymgysylltu gyda'r ymgeisydd yn parhau yn ystod y cam nesaf. Mae'r cais am drwydded forol mewn perthynas ag Erebus yn dal i fod ar y gweill.
13. Ac yntau'n gynrychiolydd CNC, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y diweddaraif ynglŷn ag archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru o fioamrywiaeth. Y ffocws oedd yr ymrwymiad "30 erbyn 30" i ddiogelu 30% o'n tiroedd a'n moroedd er budd natur erbyn 2030 a rhoi camau gweithredu ar waith gogyfer hyn. Roedd aelodau o'r grŵp craidd yn canolbwyntio ar nifer o themâu, yn cynnwys sut gellid symud y rhain yn eu blaen, pennu partneriaid allweddol a sicrhau cysylltiad da rhwng safleoedd. Mae amseru'r gwaith adrodd wedi symud i fis Medi a'r bwriad yw cynnal cynhadledd yn ystod mis Hydref. Mae is-grwpiau arbenigol yn gweithio ar faterion a chaiff trafodaethau bord gron eu cynnal gyda rhanddeiliaid. Fel cynrychiolydd Prifysgol Caerdydd, cyflwynodd yr Athro Steve Ormerod rai myfyrdodau personol ar yr archwiliad dwfn, yn cynnwys pryderon ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd gwarchoddedig. Nodwyd bod ansawdd dŵr a bioamrywiaeth, ynghyd â dulliau priodol o reoli tirweddau er mwyn cyflawni'r materion hyn ar yr un pryd, wedi bod yn thema blethol.

14. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran Ffliw Adar. Mae'r DU wedi bod o dan barth gwarchod Ffliw Adar ers yr hydref diwethaf; mae'r parth hwn yn dal i fod ar waith, er i'r gorchymyn i gadw dofednod o dan do gael ei godi ym mis Mai. Mae CNC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), sy'n cymryd yr awenau o ran rheoli'r brigiad o achosion. Cafodd y Bwrdd y diweddaraf ynglŷn ag adroddiadau pryderus o'r Alban, Gogledd Ddwyrain Lloegr a'r Iseldiroedd yn ymwneud â'r effeithiau cynyddol ar boblogaethau adar môr. Roedd yr effaith bosibl ar nythfeydd adar môr rhyngwladol bwysig a geir yng Nghymru yn destun cryn bryder. Disgrifiwyd ymateb y cynllun rheoli digwyddiadau. Er nad oes unrhyw achos wedi'i gadarnhau yng Nghymru ar hyn o bryd, rhaid mynd i'r afael yn awr â gwaith monitro a goruchwylio, ac mae gwaith ar y gweill gyda chwaer-asiantaethau, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.
15. Bu aelodau'r bwrdd yn ystyried cynnwys yr adroddiad. Cafwyd eglurhad ynglŷn â threfniadau dirprwyo'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a chadarnhawyd nad oedd CNC yn gyfrifol am alldalu'r adnodd. Croesawodd y Bwrdd y newyddion da ynglŷn â llofnodi cytundeb rheoli pum mlynedd gydag Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Nodwyd llwyddiant Diwrnod #TîmCyfoeth a thynnwyd sylw at ba mor bwysig yw hi i'r staff ailgysylltu yn y cawd.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau gan y Pwyllgorau

16. Rhoddodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin ac 8 Gorffennaf. Cymerwyd bod yr adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei ddarllen. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn siomedig na chawsant yr adroddiad ar Chwythu'r Chwiban yn y cyfarfod diwethaf, ond roeddynt yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. 'Sicrwydd Cyfyngedig' yw barn y tîm Archwilio Mewnol o hyd. Fodd bynnag, mae trafodaethau da ar y gweill a chydabyddir bod pethau'n symud mewn cyfeiriad cadarnhaol – er, mae angen gwaith ac ymdrech barhaus. Mynegwyd rhai pryderon yn ymwneud â'r cynnydd yn y nifer o ganllawiau; ystyriwyd hyn gan aelodau'r uwch-dîm, a cheisiwyd ei gymhwyso at y gwaith mapio sicrwydd er mwyn sicrhau y bydd y gwaith hwnnw'n ddiwastraff ac yn ddefnyddiadwy. Diolchwyd i'r timau ac i gyd-aelodau'r Pwyllgor ar yr adeg brysur hon o'r flwyddyn. Hefyd, ar ran y Bwrdd diolchodd y Cadeirydd Dros Dro i Catherine Brown am ei gwaith, ac ategodd ei diolchiadau hithau i'r tîm ac i'r Pwyllgor ar ran y Bwrdd. Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd sylwadau ynglŷn â chyfluoedd i ddefnyddio dulliau digideiddio i symleiddio prosesau canllawiau.
17. Rhoddodd Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Pwyllgor gyfarfod yn y cawd a chynhaliwyd cyfarfod hybrid llwyddiannus. Croesawyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor, sef: Dr Tom Nisbet o Forest Research a'r Athro Melanie Austen o Brifysgol Plymouth. Tynnwyd sylw at y drafodaeth ynghylch y Rhaglen Mawndiroedd. Cafwyd her awdurdodol yn ymwneud â chostiadau'r Rhaglen, ac oherwydd hyd y prosiect a'r costiadau bydd yn rhaid i'r Bwrdd geisio sicrwydd pellach ynglŷn â hyn. Felly, bydd yn dychwelyd at y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth. Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â'r dull o ymdrin â gwyddoniaeth y dinesydd a pha un a ddylid canolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu â'r cyhoedd ynteu ar gael gafael ar ddata cadarn.
18. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y trafodaethau ynglŷn â'r dull o ymdrin â gwyddoniaeth y dinesydd a nodwyd mai buddiol fu ystyried sut gallai prosiectau wireddu cymysgedd o amcanion. Nodwyd yr asesiad ansoddol o dystiolaeth a rôl grwpiau cynghori gwyddonol o ran asesu'r hyn y gellid ei ystyried yn dystiolaeth. Tynnwyd sylw at y rôl y gallai'r gymuned ffermio ei chwarae o ran cefnogi gwyddoniaeth y dinesydd. Trafodwyd y gost

sydd ynghlwm wrth adfer mawndiroedd ac argymhellwyd y dylid ailwerthuso'r costiadau. Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y gwaith a wneir ar y cyd mewn perthynas â mawndiroedd ym mhedair gwlad y DU ac yn Iwerddon.

19. Nodwyd adroddiad ysgrifenedig cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 10 Mehefin.
20. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf. Cafwyd cyfarfod da a chynhaliwyd ymweliad cadarnhaol â Llyn Tegid. Tynnwyd sylw at y dulliau rheoli da ar y safle. Roedd y Pwyllgor yn falch iawn o weld dulliau rhagweithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd. Awgrymwyd y gellid dysgu gwersi cadarnhaol yn sgil cyfathrebu gyda chymuned Llyn Tegid. Yn y sesiwn ffurfiol a gynhaliwyd yn ystod y prynhawn, atgoffwyd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd mai gwaith ymatebol oedd hwn o hyd yn hytrach na gwaith rhagweithiol fel y argymhellodd yr Athro Balmforth. Cynhaliwyd trafodaeth ddilynol ynglŷn â'r cyfeiriad strategol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a bydd y trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn yn parhau. Cafwyd cyflwyniad yn ymwneud â'r Adolygiad Llifogydd a disgrifiwyd y camau tuag at ddirwyn y Rhaglen i ben; bydd y camau hyn yn cynnwys cyflwyno diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd. Bydd angen ailragamcanu'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd materion contractiol. Mae cynnod rhagamcanu hwy wrthi'n cael ei ddatblygu mewn perthynas â lleihau perygl llifogydd.
21. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith fod Rheolwr Rhaglen wedi'i benodi ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Pobl. Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn edrych ymlaen at gael diweddariadau rheolaidd yn ymwneud â'r Rhaglen ac at feithrin dealltwriaeth a chefnogaeth mewn perthynas â chyflawni amrywiaeth eang o brosiectau. Cynhaliwyd archwiliad dwfn o absenoldeb salwch. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau ynglŷn â hyn a nodwyd y gellid ystyried ffyrdd mwy arloesol o reoli llesiant. Craffwyd ar Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ac argymhellwyd y gallai aelodau'r Bwrdd eu herio'u hunain i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg mewn cyfarfodydd. Cafwyd cyflwyniad ar Ymgysylltu â Chwsmeriaid, a bellach mae'r Pwyllgor yn hyderus bod aelodau'r tîm yn canolbwyntio ar y cyfeiriad iawn a'u bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlogi'r tîm a meincnodi arferion gorau. Ystyriwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Bydd angen mireinio'r elfen 'canolbwyntio ar gwsmeriaid' a gynhwyswyd yn y Cylch Gorchwyl a bydd y gwaith mewn perthynas â hyn yn parhau all-lein.
22. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin. Tynnwyd sylw at rychwant eang y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a'r anawsterau dilynol o ran sicrhau sylw teg i bopeth. Nodwyd bod y Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig, y mae'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn bwrw ymlaen â hi ar ran y Bwrdd, wedi cyrraedd cam cymharol gynnar yn y broses casglu tystiolaeth. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cyfathrebu ynglŷn â materion o'r fath, a'r bwriad yw bwrw ymlaen â hyn ar ôl i adnoddau priodol gael eu dyrannu. Mae'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig wrthi'n adolygu'r ystyriaethau "30 erbyn 30". Mae gwaith craffu pwysig yn cael ei wneud ar olrhain dulliau o fonitro'r tir. Tynnwyd sylw at ba mor bwysig yw monitro ardaloedd gwarchodedig dynodedig o ran adfer bioamrywiaeth, a gwerthuso'r dystiolaeth ynglŷn â hyn. Croesawodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig y ffaith fod tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) newydd wedi cael eu dynodi, gan gydnabod ar yr un pryd bod y gwaith hwn wedi bod yn drwm iawn ar adnoddau.
23. Rhoddodd Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin. Cymerwyd bod y papur wedi ei ddarllen. Roedd is-grŵp ychwanegol wedi cael ei sefydlu i ystyried materion yn ymwneud â ffosffadau. Roedd Delyth Lewis-Jones o'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a

Garddwriaeth wedi cytuno i gadeirio'r grŵp hwn am gyfnod, a bydd hefyd yn aelod o'r Grŵp Ffosffadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd er mwyn sicrhau y cynrychiolir y byd amaethyddiaeth. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y ffaith eu bod bellach yn cael diweddariadau gan Fforwm Rheoli Tir Cymru a thrafodwyd cynnwys y diweddariad. Gofynnwyd am gael dolen ar gyfer y prosiect a nodir ym mharagraff 7 yr Adroddiad. Nodwyd bod dau adroddiad yn berthnasol i'r pwnc hwn, sef: yr Adroddiad Dosrannu Ffynonellau a ryddhawyd gan Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW); a'r Prosiect RePhoKUs gan Brifysgol Caerhirfryn a gyflwynwyd i Adroddiad Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol San Steffan ar ansawdd afonydd, lle'r edrychwyd yn benodol ar Afon Gwy.

Eitem 6: Diweddariad Cyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

24. Gan ei bod hi'n gynnar yn y flwyddyn ariannol, esboniodd y Pennaeth Cyllid y byddid yn canolbwyntio ar y pwysau a'r materion a ddaw i'r amlwg. Yn ôl pob tebyg, bydd y Rhaglen Gyfalaf Perygl Llifogydd yn cael ei lleihau eleni gan fod y prisiau'n llawer uwch na'r disgwyl a chan nad oeddynt yn cynnig gwerth am arian. Bydd fframwaith Cyngor Caerdydd a phorth Gwerthwchi Gymru yn cael eu defnyddio i gaffael yn y dyfodol. Mae materion a ddaw i'r amlwg, mewn perthynas ag oedi mewn cynlluniau eraill yn y sefydliad, yn cael eu hadolygu. Disgrifiwyd y rhagolygon diwygiedig o ran incwm pren. Yn ôl pob tebyg, bydd yr incwm hwn yn gostwng i £36m oherwydd gostyngiad sylweddol yn y taliad chwyddo. Roedd y dyfarniad cyflog ar gyfer eleni wedi cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y flwyddyn gyda gor-raglennu cyffredinol o £4m a dibyniaeth ar gyllid dros dro o £7.3m gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd mesurau lliniaru'n ymwneud â'r rhagolygon ar gyfer incwm ynni, gwerthu trefniant partneriaeth Forest Holidays, a'r gyfradd uwch na'r disgwyl o ran swyddi gwag. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn fanylach yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol ddiwedd mis Gorffennaf ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi. Bydd y diweddaraf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
25. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i 'Rheoli ein Harian' mewn perthynas â chael gwared â'r adran 'Rhagdaliadau Covid-19'.

CYMERADWYWYD: Y newidiadau i 'Rheoli ein Harian – Rhagdaliadau Covid-19' (dileu'r adran).

26. Nododd y Bwrdd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2022. Trafodwyd y problemau o ran y Rhaglen Gyfalaf Perygl Llifogydd. Cwestiynwyd y dull o ymdrin â thanwariant a gofynnwyd a ellid dwyn prosiectau amgen ymlaen. Cadarnhaodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, fod y Pwyllgor wedi holi ynglŷn â'r pwynt hwn a bod y tîm wedi cadarnhau na ellid gwario'r holl arian yn ystod y flwyddyn ariannol oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Felly, bydd yn rhaid dychwelyd yr arian i Lywodraeth Cymru er mwyn i awdurdodau lleol Cymru allu ei ddefnyddio ar gynlluniau llifogydd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gefnogol i'r dull 'gwerth am arian'. Cydnabuwyd bod angen craffu ar y prisiau, a'u profi. Esboniodd y Pennaeth Cyllid bod y fframwaith wedi bod ar waith ers dwy flynedd bellach; bydd yn cadarnhau pryd yn union y bydd angen ei adnewyddu. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd fod y fframwaith wedi cael ei drafod yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor a bod y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Strategol a Buddsoddi, wrthi'n adolygu'r dull o ymdrin â modelau fframweithiau.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Cyllid i gadarnhau dyddiad adnewyddu'r fframwaith contractwr ar gyfer prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd.

27. Ystyriwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gwaith Heblaw Llifogydd. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am eglurhad ynghylch yr oedi cyn llofnodi llythyrau cynnig grantiau, a pha un a fydd hyn yn effeithio ar ddyddiadau cychwyn y grantiau a gynigir. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y bydd y rhain yn bwrw ymlaen ar eu risg eu hunain cyn belled â'u bod wedi cael cadarnhad swyddogol y bydd yr arian mewn lle; bydd hyn yn sicrhau na cheir unrhyw oedi diangen. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r dull hwn.

Eitem 7: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22

Cyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

28. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2021/22 yn ystod sesiwn breifat y Bwrdd. Nodwyd bod y statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer mesurau'r Adroddiad Perfformiad ar ddiwedd Chwarter 4 fel a ganlyn: dau yn Goch, chwech yn Felyn a 22 yn Wyrdd. Roedd y statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer mesurau'r Adroddiad Perfformiad Mewnol yn cynnwys un Coch, dau Felyn ac wyth Gwyrdd.
29. Roedd dau fesur Melyn wedi troi'n Wyrdd ers Chwarter 3. Roedd tri mesur Gwyrdd wedi troi'n Felyn, sef: 'Gweithredu ar yr Argyfwng Hinsawdd ledled CNC' – roedd swyddi gwag a dibyniaethau wedi arafu'r gwaith yn y maes hwn; 'Darnau o goetiroedd newydd a grëir ar ystad CNC' – penderfynwyd gohirio'r gwaith plannu fel y gellid ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid; 'Cyflawni camau gweithredu penodol er budd rhywogaethau sy'n dirywio neu rywogaethau sydd ar fin diflannu' – bu'n rhaid ailgyfeirio adnoddau staff at Adolygiad y Cydbwyllgor Gwarchod Natur. Roedd un mesur Melyn wedi troi'n Goch. Daeth y flwyddyn i ben gyda dau fesur Coch: 'Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ac ymchwiliadau'n ymwneud â dŵr' – o ganlyniad i ailgyfeirio adnoddau at waith yn ymwneud ag afonydd ACA; 'Cynnydd y Strategaeth Profiad Cwsmeriaid' – oherwydd diffyg cyflenwyr addas i fwrw ymlaen â'r gwaith, bydd y gwaith aildendro mewn perthynas â hyn yn cael ei gynnal yn y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd gwaith ar leihau llygredd o du Mwyngloddiau Metel wedi troi o fod yn Goch i fod yn Felyn.
30. Roedd dau ddeg dau o fesurau yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn; roedd rhai o'r rhain wedi bod yn Felyn am beth amser a thynnwyd sylw atynt: Cynnal a chadw asedau perygl llifogydd; Ymateb i ddigwyddiadau; Cwblhau camau ar safleoedd gwarchoddedig.
31. Cyflwynwyd y diweddaraf ynglŷn â mesurau Perfformiad Mewnol. Esboniwyd bod y mesur Coch yn ymwneud â'r System Reoli Amgylcheddol (EMS) fewnol; mae'r mesur hwn wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, a chaiff newidiadau eu datblygu. Mae absenoldeb salwch wedi bod yn gostwng ac mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau wedi ystyried y mater hwn. Rydym yn chwilio am welliannau i'r broses adrodd a hefyd i'r gefnogaeth a roddir i reolwyr a staff. Yn achos taliadau i gyflenwyr, a arferai fod yn Goch ac a drafodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, gwelir bod y mater hwn bellach yn Wyrdd.
32. Trafodwyd yr Adroddiad gan aelodau'r Bwrdd a gofynnwyd am enghreifftiau lle na welwyd cynnydd o ran ymdrin â'r argyfwng hinsawdd mewn modd integredig ledled CNC. Er bod cyflawni ar sail y mesurau argyfwng hinsawdd yn rhywbeth sydd wedi cael ei ymwreiddio, esboniodd y Prif Weithredwr fod yna waith i'w wneud o hyd ar y mesurau argyfwng hinsawdd, er enghraifft ar y mesurau a ddefnyddir trwy'r System Reoli Amgylcheddol. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y dylid canolbwyntio ar dargedau mesuradwy a mesurau canlyniadau yn hytrach nag ar weithgareddau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd. Croesawodd y Bwrdd y ffaith fod y mesur 'Rheoli a chynnal asedau perygl llifogydd' a'r mesur 'Taliadau i gyflenwyr' bellach â statws Gwyrdd, a

nodwyd ymdrechion y tîm yn hyn o beth. Cydnabu'r Bwrdd y gwaith a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r mesurau a gynhwysir yn y Dangosfwrdd a diolchwyd i'r staff am hyn, ond cydnabuwyd y pryder a deimlir gan bawb pan fo'r mesurau'n Felyn neu'n Goch.

33. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22.

Eitem 8: Rôl CNC yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol ar gyfer Adnoddau Dŵr a Gwelliannau mewn Ansawdd Dŵr (PR24)

Cyflwynwyr: Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru; Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, y Strategaeth Ddŵr; Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

34. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu gyflwyniad ac esboniodd fformat yr eitem lle byddid yn canolbwyntio ar rôl Bwrdd CNC ym mhroses Adolygu Prisiau 2024 (PR24). Bydd yr eitem a ganlyn yn cynnig diweddariad ehangach ynghylch ansawdd dŵr. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd rôl yr Adolygiad Prisiau yn gweithredu mewn 'seilo' ac y byddai'n allweddol o ran ymdrin â materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr.
35. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru gyflwyniad ac esboniodd y byddai'r cyflwyniad yn ymdrin ag eitemau 8 a 9, gan eu bod yn gysylltiedig. Roedd y ffocws parhaus ar ansawdd dŵr yn golygu bod yna bwysau ychwanegol i wneud a chyflawni mwy, a thynnwyd sylw at y ffaith bod hyn yn flaenoriaeth i'r Gweinidog. Diolchwyd i aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus yn y maes gwaith hwn. Bydd y Prif Weinidog yn cadeirio uwchgynhadledd Llywodraeth Cymru yn ystod y Sioe Amaethyddol Frenhinol a disgwylir y bydd camau gweithredu yn deillio ohoni. Roedd gwelliannau o ran monitro ansawdd dŵr yn faes allweddol, ochr yn ochr â deall blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a bydd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i'r hydref. Mae adolygiad mewnol o ansawdd dŵr wrthi'n cael ei gynnal a bydd hwn yn dwyn popeth ynghyd o fewn un rhaglen. Hefyd, erbyn yr hydref bydd swydd wedi'i sefydlu er mwyn cysylltu hyn gyda'i gilydd.
36. Rhoddodd Cynghorydd Arbenigol Arweiniol y Strategaeth Ddŵr gyflwyniad er mwyn cynnig golwg gyffredinol ar Adolygiad Ofwat o Brisiau Cwmnïau Dŵr. Cyflwynwyd trosolwg o rôl Ofwat. Esboniwyd y bydd yr Adolygiad Prisiau yn pennu'r pris cyfanwerth ar gyfer 2024 a'r Rhaglen Rheoli Asedau ddilynol. Rhannwyd heriau ac uchelgeisiau allweddol Ofwat ar gyfer PR24 – byddant yn esgor ar ffocws hirdymor yn hytrach na chanolbwyntio ar y cyfnod pum mlynedd cyfredol. Bydd y cwmnïau dwr (Dŵr Cymru/Welsh Water, Hafren Dyfrdwy ac United Utilities yng Nghymru) yn cyflwyno'u cynlluniau busnes i Ofwat, ac yna bydd Ofwat yn gosod y prisiau ar sail y cynlluniau hyn. Esboniwyd y gallai CNC ddylanwadu ar y cynlluniau busnes yn uniongyrchol yn ei rôl fel rheoleiddiwr amgylcheddol a thrwy gyfeiriad y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol, a fydd yn pennu rhestr gwelliannau â blaenoriaeth er mwyn bodloni rhwymedigaethau amgylcheddol statudol. Er bod y gwariant cymeradwy a gaiff ei fuddsoddi yn y Rhaglen Rheoli Asedau yn debygol o fod yn gannoedd ar filiynau o bunnoedd, esboniwyd y bydd yn rhaid parhau i flaenoriaethu.
37. Rhannwyd yr amserlen a nodwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau busnes i Ofwat – sef mis Hydref 2023. Cydnabuwyd y pwysau cynyddol yn sgil yr argyfyngau hinsawdd a natur a chyflwynwyd trosolwg o'r meysydd y bydd y gwariant yn effeithio arnynt. Cydnabuwyd y bydd yr argyfwng costau byw yn cael effaith. Gofynnwyd i'r Bwrdd ganiatáu i'r cwmnïau dŵr gyflwyno'u cynlluniau busnes gerbron cyfarfod y Bwrdd ym mis

Tachwedd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd herio rhagdybiaethau, ymdrin â materion cyfredol, dylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddi a phennu llwybr clir tuag at ganlyniadau 2050.

38. Aeth aelodau'r Bwrdd ati i drafod cynnwys y cyflwyniadau. Holwyd pa ddull y byddid yn ei roi ar waith pe bai'r Bwrdd o'r farn fod cynlluniau'r cwmnïau dŵr yn annigonol. Holwyd hefyd a oedd CNC yn cydweithredu gormod yn y broses, a pha un a fyddai hyn yn gwneud y rôl reoleiddio yn anos.
39. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y dull o ymdrin â'r rôl reoleiddio. Mae CNC wedi delio'n uniongyrchol gyda Byrddau Dŵr Cymru/Welsh Water a Hafren Dyfrdwy, gan feincodi yn erbyn Lloegr, ac mae meini prawf perfformiad amgylcheddol ar waith. Defnyddiwyd dull tebyg mewn perthynas â chamau gorfodi, gan ddwyn cymariaethau a rhannu gwersi gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae dulliau ar waith i sicrhau y ceir lefel herio briodol ynghyd â chydbywysedd cywir rhwng rheoleiddio a chydweithredu. Eglurwyd rolau Ofwat, CNC a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed o ran cymryd camau ar sail eu cylch gorchwyl. Mynegwyd siomedigaeth ynghylch y gostyngiad a welwyd yn ddiweddar ym mherfformiad y cwmnïau dŵr.
40. Gofynnwyd am gael y diweddaraf ynglŷn â phrosiect mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog, a chytunwyd y bydd modd darparu'r wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod.

CAM GWEITHREDU: Dosbarthu diweddaraf ynghylch prosiect mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog i aelodau'r Bwrdd.

41. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at y gwaith pwysig a wneir ar lygredd amgylcheddol, a chroesawyd y ffaith fod y cwmnïau dŵr yn gysylltiedig â'r gweithgor sy'n ymdrin â'r mater hwn. Disgwylir gweld ffocws a chraffu cynyddol ar y mater hwn, a chroesawyd y ffaith y bydd y mater yn cael ychwaneg o sylw er mwyn helpu i greu cyfleoedd i leihau llygredd amaethyddol a llygredd o fath arall.
42. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r pwynt yn y papur lle sonnir am ddull llai gwrthwynebus. Oherwydd y gostyngiad ym mherfformiad y cwmnïau dŵr, pwysleisiwyd nad priodol ar hyn o bryd fyddai cael perthynas wedi seilio'n ddyfnach ar ymddiriedaeth. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu mai bwriad y papur oedd pwysleisio dull mwy cyfrifol gan y cwmnïau dŵr.
43. Roedd aelodau'r Bwrdd yn fodlon â'r llwybr a gymerir, yn enwedig mewn perthynas â'r dull o ddatblygu gweledigaeth hirdymor, a chytunwyd ar yr argymhelliad yn y papur. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gael sesiwn frifio cyn y cyfarfod a gynhelir ym mis Tachwedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall y disgwyliadau.

CAM GWEITHREDU: Trefnu sesiwn frifio ar gyfer y Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Dylai'r sesiwn hon nodi disgwyliadau CNC mewn perthynas â chynlluniau busnes drafft y cwmnïau dŵr.

PENDERFYNIAD: Cytunodd y Bwrdd ar yr argymhelliad: Trefnu sesiwn ar gyfer Bwrdd CNC lle gall cwmnïau dŵr Cymru gyflwyno'u cynlluniau busnes drafft i'w trafod – Hydref 2022. Dylid gwahodd Gwenllian Roberts, Cyfarwyddwr Ofwat yng Nghymru, i'r sesiwn.

Eitem 9: Y Diweddaraf am Ansawdd Dŵr

Cyflwynwyr: Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru; Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, y Strategaeth Ddŵr; Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

44. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru gyflwyniad gerbron y Bwrdd. Rhannwyd trosolwg o'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, yn cynnwys yr aelodau. Lansiwyd y map trywydd ar 5 Gorffennaf. Bydd dull partneriaeth yn cael ei roi ar waith, a bydd CNC yn canolbwyntio ar reoleiddio a thystiolaeth ynghylch gorlif stormydd. Disgrifiwyd cefnogaeth a chymhelliant cryf Cadeiryddion CNC, Ofwat a'r cwmnïau dŵr. Allbwn allweddol arall ar gyfer mis Gorffennaf fydd cyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Rhannwyd trosolwg o gamau gweithredu yr aethpwyd i'r afael â nhw ers 2009. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cydweithredu. Disgrifiwyd Adroddiad Perfformiad Blyneddol Dŵr Cymru/Welsh Water a mynegwyd siomedigaeth ynglŷn â'r gostyngiad mewn perfformiad. Cafwyd gostyngiad siomedig ym mherfformiad Hafren Dyfrdwy hefyd.
45. Cafwyd y diweddaraf ynglŷn â'r Prosiect Afonydd ACA a sefydlwyd er mwyn cynnig cyfeiriad a chynghor. Soniwyd am y pethau a gyflawnwyd hyd yn hyn. Bydd cydweithredu a gweithredu yn allweddol. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu hystyried a bydd modd dychwelyd at y Bwrdd gyda diweddariad llawn ar ôl i hyn gael ei gadarnhau. Cyflwynwyd y diweddaraf ynglŷn â Phrosiectau LIFE ar Afon Dyfrdwy a'r prosiect Pedair Afon LIFE, a ariennir yn rhannol gan yr UE a phartneriaid eraill. Caiff materion datblygol eu hystyried ar hyn o bryd ac mae gwaith wedi dechrau gyda phartneriaid allweddol ar feysydd yn ymwneud â gwyddoniaeth y dinesydd, cynhyrchion fferyllol, ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd, a microblastigau.
46. Diolchodd y Bwrdd i aelodau'r tîm am eu gwaith parhaus ar ansawdd dŵr. Holodd y Bwrdd ynghylch y ddibyniaeth ar Benodiadau Cyfnod Penodol a mynegwyd pryderon ynglŷn â'r dull hwn. Tynnwyd sylw at ba mor werthfawr yw parhad o ran staff, a dywedwyd bod angen gwneud y swyddi hyn mor atyniadol â phosibl yn y prosiect pwysig hwn.
47. Croesawyd y gwaith yn ymwneud â gwyddoniaeth y dinesydd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd. Tynnwyd sylw at elfennau fferyllol eraill sy'n effeithio ar ansawdd dŵr, ac awgrymwyd y gallai prifysgolion gydweithio yn y maes gwaith hwn. Tynnwyd sylw at rôl Awdurdodau Lleol yn y broses gynllunio ac mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, yn enwedig o ran ffosffadau. Ymhellach, crybwyllwyd materion yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chysylltu â systemau draenio priodol.
48. Argymhellwyd bod angen i'r Prosiect Afonydd ACA lunio trosolwg o ddiagram rhaeadru y gellid ei gyflwyno gerbron y Bwrdd, er mwyn egluro'r llwybr hollbwysig a hwyluso llywodraethu ar y mater hwn. Dywedodd aelodau'r Bwrdd fod angen ymgysylltu y tu hwnt i'r grwpiau rhanddeiliaid arferol a thynnwyd sylw at gynghor gan Archwilio Cymru ynglŷn ag ymgysylltu â chymunedau a grwpiau cymunedol. Mae angen rhoi dull mwy strategol ar waith, a byddai'r Bwrdd yn croesawu rhagor o ymgysylltu ynglŷn â'r mater hwn. Cadarnhaodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru fod arweinydd cyfathrebu pwrpasol bellach ar waith a bod ei gyfrifoldebau'n cynnwys llunio cynllun ymgysylltu.

Eitem 10: Rheoleiddio'r arfer o reoli Adar sy'n Bwyta Pysgod: Argymhellion

Cyflwynwyr: Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd; Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau; Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adareg; David Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw

49. Cadeiriwyd yr eitem hon gan Julia Cherrett.

50. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu gyflwyniad byr i'r eitem. Atgoffwyd y Bwrdd fod yr ymrwymiad ynglŷn â'r mater hwn yn ymwneud â

mesurau rheoli 'dal a rhyddhau' a ddatblygwyd er mwyn sicrhau na fyddid yn dibynnu ar un dull yn unig o gynorthwyo poblogaethau eogiaid a brithyllod.

51. Rhoddodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd gyflwyniad i'r Bwrdd. Esboniwyd cefndir y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys amryfal gyrrff cadwraethol sydd â buddiannau mewn adar, pysgod a chadwraeth. Esboniwyd mai'r rhywogaethau sydd o'r diddordeb pennaf yn hyn o beth yw'r fulfran a'r hwyaden ddanheddog. Nodwyd lefelau presennol eu poblogaethau a chyflwynwyd tystiolaeth ynghylch y risgiau ysglyfaethu sy'n wynebu poblogaethau eogiaid a siwin – poblogaethau sydd bellach wedi cyrraedd lefel hanesyddol isel. Disgrifiwyd y pryderon difrifol ynglŷn â'r dirywiad dramatig mewn poblogaethau eogiaid a brithyllod a rhannwyd mapiau asesu stociau.
52. Tynnwyd sylw at ba mor bwysig yw cael dull a arweinir gan dystiolaeth wrth ystyried materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng gwahanol fathau o fywyd gwyllt. Rhannwyd trosolwg o'r dull, a oedd yn cynnwys arfarnu dulliau trwyddedu seiliedig ar ddalgylchoedd. Roedd yna gonsensws cyffredinol ynglŷn â'r canlyniad, a rhannwyd y meysydd allweddol y cytunai'r Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod arnynt. Disgrifiwyd ymateb CNC, lle defnyddir argymhellion y Grŵp Cynghori i lunio cynllun gweithredu. Cafwyd trosolwg o'r cynllun gweithredu a rhannwyd yr hierarchaeth rheoli ysglyfaethu. Disgrifiwyd y camau nesaf ar gyfer 2022 i 2024 a thu hwnt. Esboniwyd y costau tebygol ar gyfer Blynnyddoedd 2 a 3 a nodwyd y byddai'n rhaid ceisio arian ar gyfer hyn.
53. Aeth y Bwrdd ati i ystyried cynnwys y cyflwyniad. Crybwyllodd aelodau'r Bwrdd faterion yn ymwneud â chymhlethdodau'r gofynion ariannu o du mesurau eraill, megis gwella ansawdd dŵr, a pha un a fydd y cyllidwyr posibl yn meddu ar yr wybodaeth i gynnal asesiad cyfannol o'r mater hwn. Cadarnhaodd y Prif Ymgynghorydd, Pysgodfeydd, y bydd yn bwysig cyflawni amryfal fanteision, ac y gellid ystyried bod yr arian angenrheidiol yn swm cymharol fach.
54. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y cydweithio pwysig mewn perthynas â'r mater hwn. Y gobaith yw y bydd y broses yn cynnig cyfleoedd dysgu da y gellir eu cymhwyso at faterion eraill yn ymwneud â bioamrywiaeth. Nododd aelodau'r Bwrdd fod y papur yn glir ynglŷn â'r cyfyngiadau sy'n perthyn i'r sylfaen dystiolaeth, a chydnabuwyd pa mor bwysig yw arbenigwyr ar gyfer cynnig cyngor ar argymhellion priodol mewn amgylchiadau o'r fath. Awgrymwyd y byddai'n bwysig cydweithio ar waith ymchwil gyda Lloegr a'r Alban.
55. Mynegwyd pryderon ynghylch Argymhelliad 12i, oherwydd ystyriwyd nad oedd yn briodol i rywun â buddiant yn un o'r pysgodfeydd o dan sylw wneud penderfyniadau ynghylch hyn, ac felly ni ddylid cynnwys hyn fel opsiwn.
56. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am wybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag Argymhelliad 9 – sef argymhelliad na chafodd gefnogaeth unfrydol. Fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod, esboniodd yr Athro Steve Ormerod fod cyfnod y gleisiaid ddiwedd y gwanwyn yn un cam yng nghylch oes salmonidau lle gallai mesurau diogelu esgor ar fanteision sylweddol i'r boblogaeth. Roedd pryderon y cyrff adaregol yn ymwneud â'r effeithiau posibl y gallai mesurau rheoli eu cael ar rai rhywogaethau adar sensitif, a hefyd y goblygiadau posibl o ran eu cywion dibynnol. Fodd bynnag, disgrifiwyd y darlun mwy, ac roedd hwn yn cynnwys y posibilrwydd y byddai eogiaid yn mynd i ddifancoll. Mae angen llunio camau gweithredu ar gyfer yr ystod lawn o faterion sy'n ymwneud â newid hinsawdd, sychder, cynhesu, ansawdd dŵr, datblygiadau ar y môr a cholli cynefinoedd; ond mae rheoli ysglyfaethu hefyd yn rhan o hyn.

57. Diolchodd y Bwrdd i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn a chymeradwywyd yr argymhellion yn y papur ar yr amod bod Argymhelliad 12i yn cael ei newid, fel y nodir uchod.

CYMERADWYWYD: Y dull a argymhellir a'r camau nesaf fel y'u nodir yn y papur mewn perthynas â rheoleiddio'r arfer o reoli Adar sy'n Bwyta Pysgod ar yr amod bod Argymhelliad 12i yn cael ei newid.

Eitem 11: Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021/22

Cyflwynydd: Lyn Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl

58. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad yn unol â Safonau'r Gymraeg. Roedd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau wedi craffu ar yr Adroddiad, a'i gadarnhau, yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Cydnabuwyd yr anawsterau o ran cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd rhithwir neu hybrid, yn enwedig mewn perthynas â chyfyngiadau technolegol Microsoft Teams yn y maes hwn. Tynnwyd sylw at yr elfennau cadarnhaol yn yr Adroddiad a disgrifiwyd rhai o'r meysydd mae angen gwneud gwaith pellach ynddynt. Bydd angen datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg ehangach wrth symud ymlaen, gan ystyried yr elfen 'Pobl' a chan raglennu'r gwaith ar hyn. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw arweiniad y Bwrdd o ran defnyddio'r Gymraeg.

59. Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl, ddiweddariad yn ymwneud â'r cynnydd o ran gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n gweinyddu'r gwasanaeth Prynu Trwyddedau Pysgota ar ran CNC) i ddatblygu gallu iaith Gymraeg y wefan .gov. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth hwn ar waith erbyn diwedd y flwyddyn. Mae briff prosiect wrthi'n cael ei lunio ar gyfer datblygu'r gwasanaeth dwyieithog ar Flood Lines UK. Roedd aelodau'r tîm yn falch iawn fod CNC wedi ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn 2021/22, yn enwedig gan eu bod wedi arwain y ffordd o ran caniatáu i'r staff ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith.

60. Diolchodd y Bwrdd i'r Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl, a llongyfarchwyd y tîm ar ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn.

61. Croesawodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr Adroddiad a buont yn trafod opsiynau TGCh gwahanol i Microsoft Teams. Croesawyd yn arbennig y gwaith ar y cyfeiriadur rhywogaethau morol ac roedd y Bwrdd yn falch o glywed bod 94% o'r staff yn gallu dangos peth gallu yn y Gymraeg. Awgrymwyd y gellid trefnu sesiwn hyfforddi i aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â defnyddio Cymraeg elfennol mewn cyfarfodydd.

62. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021/22.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021/22.

Eitem 12: Eitemau Agenda ar gyfer Cyfarfodydd Cyhoeddus a Phreifat y Bwrdd

Cyflwynydd, Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg

63. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Roedd yn cynnwys meini prawf arfaethedig ynghylch a ddylid ystyried eitemau agenda yn ystod sesiynau preifat / cyhoeddus y Bwrdd. Mae tryloywder yn fwyfwy pwysig ac mae'r Bwrdd yn cynnal cymaint o'i fusnes ag y bo modd yn ystod ei gyfarfodydd cyhoeddus. Dros yr haf, bydd gwaith yn cael ei gynnal ar wella dull y Bwrdd o ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai cyfraniadau gan aelodau'r Bwrdd a'r cyhoedd yn cael eu croesawu yn hyn o beth.

64. Ystyriodd y Bwrdd gynnwys y papur a chroesawyd y ffaith fod y meini prawf yn cael eu hadolygu. Esboniodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd fod fersiwn o'r

meini prawf hyn wedi'i chymhwyso at eitemau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a bod yna gyfle yn awr i ffurfioli'r dull. Dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai angen arfer disgrisiwn mewn perthynas â Chategoriâu 6 ac 8 fel y'u nodir yn yr atodiad i'r papur hwn, yn enwedig Categori 8 sy'n ymwneud yn fwy penodol â dirywiad yn effaith lansiadau. Mynegwyd rhai amheuon ynglŷn â Chategori 9, ond derbyniwyd y dylid ei dreialu.

65. Tynnwyd sylw at y cyfleoedd sy'n deillio o adolygu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol. Trafodwyd a ddylid cynnwys Is-bwyllgorau'r Bwrdd yn y meini prawf. Cydnabuwyd y byddai hyn yn fwy priodol i rai Pwyllgorau nag eraill; ac er bod yna ddyletswydd i gynnal cyfran o gyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus, nodwyd nad oedd y ddyletswydd hon yn berthnasol i'r Pwyllgorau. Trafodwyd yr arfer o recordio cyfarfodydd y Bwrdd a mynegwyd barn amrywiol ynghylch a ddylid rhannu'r recordiadau hyn yn gyhoeddus. Bydd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried y mater hwn ymhellach.

66. Cymeradwyodd y Bwrdd y meini prawf fel y'u hargymhellir yn y papur.

CYMERADWYWYD: Y meini prawf mewn perthynas ag eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat y Bwrdd a chyfarfodydd y Pwyllgorau.

Eitem 13: Newidiadau Arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

67. Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd drosolwg o'r eitem. Roedd yr eitem hon yn deillio o drafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth ynghylch system ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

68. Ystyriodd y Bwrdd yr eitem, gan gymeradwyo'r newidiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol ar gyfer Bwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol.

CYMERADWYWYD: Y newidiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol ar gyfer Bwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol.

Eitem 14: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

69. Rhannwyd Rhagolwg y Bwrdd gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a chyflwynwyd trosolwg ohono.

70. Argymhellwyd y bydd angen blaenoriaethu eitemau'r agenda oherwydd y ffocws a geir ar ymweld â safleoedd yng nghyfarfod mis Medi y Bwrdd. Trafodwyd yr eitem ar adolygu aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd a chytunwyd y dylid gohirio hyn hyd nes y bydd aelodau newydd y Bwrdd wedi'u recriwtio. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gael rhagor o fanylion ynghylch lleoliad a chynllun cyfarfod mis Medi.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu rhagor o fanylion am leoliadau a chynlluniau cyfarfodydd y Bwrdd.

Eitem 15: Unrhyw Fater Arall

71. Nodwyd bod yr Adroddiad ar Berfformiad Cyllid hyd at fis Mawrth 2022 wedi'i gyhoeddi. Roedd hyn wedi deillio o gam gweithredu yng nghyfarfod mis Mai y Bwrdd.

NODWYD: Cyhoeddi'r Adroddiad ar Berfformiad Cyllid hyd at fis Mawrth 2022.

72. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau De Ddwyrain Cymru wybod i'r Bwrdd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi'i ffurfio erbyn hyn a bod cais ffurfiol wedi'i dderbyn yn gofyn i aelod o Fwrdd CNC eistedd ar y Pwyllgor Craffu. Cytunwyd i ystyried hyn, gan gytuno trwy ohebiaeth.

CAM GWEITHREDU: Dylid ystyried cais ffurfiol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i aelod o fwrdd CNC eistedd ar y Pwyllgor Craffu, gan gytuno trwy ohebiaeth.

73. Diolchodd y Cadeirydd Dros Dro i'r cyflwynwyr a'r mynychwyr ac ymddiheurodd yn ddiffuant i'r cyhoedd am yr anawsterau TGCh a gafwyd yn ystod y cyfarfod.

- Cau cyfarfod y Bwrdd -

Cyfarfodydd Bwrdd

Rhif y Cam Gweithredu	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Dyledus	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
2	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i siarad gyda Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru ynghylch cael trafodaeth gyda'r Bwrdd yn y dyfodol am y cyfyngiad 4 awr ar ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	23/06/2022	Yn parhau	Ychwanegwyd at y rhestr o eitemau trafodaeth strategol posibl, Cyflwyniadau Lleoedd, Sesiynau tystiolaeth ac Ymweliadau Safle. Awgrymir mai dyma'r eitem trafodaeth strategol ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi, a'n bod yn gohirio'r broses o grynhoi'r thema mewn trafodaethau strategol blaenorol er mwyn gwneud hyn. Wedi'i hychwanegu at Ragolwg Tachwedd. I'w hystyried fel rhan o'r eitem ar themâu trawsbynciol Cyflwyniad Lleoedd, symudwyd i Fwrdd Gorffennaf 2022
3	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ganfasio pobl ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar fyfyrion a heriau'r dyfodol ar ôl Covid.	Yr Ysgrifenyddiaeth	30/09/2022	Yn parhau	Mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau y bydd Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu gohirio hyd nes y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosibl. Dyddiad addas yn 2022 i'w gadarnhau. Diweddariad: Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd yn cael ei ystyried gyda arfyrdio Aelodau Newydd y Bwrdd yn 2023.
25	Cyhoeddus	24/03/2022	11	58	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach	CAM GWEITHREDU: Cynllun cychwynnol ar symud y Strategaeth Ddigidol yn ei blaen i'w datblygu a'i chyflwyno gerbron cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.	Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cwsmeriaid	26/10/2022	Yn parhau	Ar Ragolwg Tachwedd o gyfarfod y Bwrdd
36	Cyhoeddus	26/05/2022	2B	3	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Camau gweithredu o ganlyniad i'r gwaith parhaus ar Ddiogelwch Coedwigaeth i'w hadrodd i'r Bwrdd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	22/09/2022	Yn parhau	Cynigir bod adroddiadau'n cael eu darparu i'r Pwyllgor Ystadau Tir newydd (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Medi).
41	Cyhoeddus	26/05/2022	7	46	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach	CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r trefniadau llywodraethu gydag is-bwyllgor newydd y Bwrdd, o ran y dull o ymdrin â thir a reolir gan CNC.	Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol	30/09/2022	Yn parhau	Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu Cylch Gorchwyl y pwyllgor newydd. Y Cadeirydd i drafod aelodaeth ehangach y pwyllgor gyda'r Athro Calvin Jones. I'w ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
50	Cyhoeddus	14/07/2022	6	26	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Cyllid i gadarnhau dyddiad adnewyddu'r fframwaith contractwyr ar gyfer prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd.	Rob Bell, Pennaeth Cyllid	17/08/2022	Cwblhawyd	Anfonwyd e-bost at aelodau'r Bwrdd 14/09/22
51	Cyhoeddus	14/07/2022	8	40	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	CAM GWEITHREDU: Diweddariad i'w ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd am brosiect mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	14/09/2022	Yn parhau	
52	Cyhoeddus	14/07/2022	8	43	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	CAM GWEITHREDU: Sesiwn friffio i'w threfnu i'r Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ar ddisgwyliadau CNC o gynlluniau busnes drafft y cwmnïau dŵr.	Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru	01/09/2022	Yn parhau	

53	Cyhoeddus	14/07/2022	14	70	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i gylchredeg rhagor o fanylion am leoliadau a chynlluniau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.	Yr Ysgrifenyddiaeth	29/07/2022	Cwblhawyd	Anfonwyd e-bost 25/07/22
54	Cyhoeddus	14/07/2022	15	72	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ystyried cais ffurfiol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gael aelod Bwrdd CNC i eistedd ar y Pwyllgor Craffu, a chytuno arno drwy ohebiaeth.	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	17/08/2022	Yn parhau	

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y Papur:	22-09-B06
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur	Gwybodaeth/Trafodaeth

Cyflwyniad

- Roedd ein haf, mewn sawl ffordd, yn fodd i ni ddychwelyd i normalrwydd, gyda digwyddiadau fel y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd ar ôl cael eu canslo am ddwy flynedd. Mewn ffyrdd eraill, rhoddodd fwy o gip ar yr hafau i ddod, gyda thywydd sych hirfaith yn troi'n sychder, a phrinder dŵr yn creu helynt o ran y gymdeithas a'r amgylchedd a thanau gwyllt, ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (YGLIC) a rhai safleoedd dynodedig. Parhaodd ein safleoedd a'n canolfannau ymwelwyr yn boblogaidd (er nad oeddent mor brysur â'r llynedd), gyda'r holl heriau sy'n codi o ran diogelwch ymwelwyr a staffio.
- Ras arweinyddiaeth y Torïaid a lywiodd yr agenda wleidyddol dros yr haf, gyda'r ddau ymgeisydd dan bwysau i ddatgelu eu nodweddion amgylcheddol a'u cynlluniau. Gallai ethol Liz Truss (Ysgrifennydd Gwladol blaenorol DEFRA) weld newidiadau polisi sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol, os yw'r cyfryngau i'w credu, megis ffracio, echdynnu olew, Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol (ELMS) a rheoleiddio amgylcheddol.
- Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i fod ar frig yr agenda ddomestig, ac rydym yn gweld ei effaith o ran ein costau rhedeg, ar ein contractwyr a'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal ag ar ein staff. Rydym yn rheoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â hyn yn agos, a byddwn yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

Recriwtio Uwch Staff

4. Rydym bellach wedi penodi Ian Johns yn Bennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae Ian wedi gweithio yn y tîm TGCh ers dros wyth mlynedd, ac rydym wrth ein bodd ei fod wedi cymryd y rôl ar adeg mor dyngedfennol yn ein taith adnewyddu a thrawsnewid. Dyma'r olaf mewn cyfres o benodiadau diweddar, ac mae'n werth myfyrio ar y ffaith ein bod wedi recriwtio ar gyfer un ar bymtheg o'n tri deg un o rolau yn y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain dros y tair blynedd diwethaf. O'r un ar bymtheg rôl, mae pump wedi bod yn symudiadau mewnol neu'n ddyrchafiadau, ac mae un ar ddeg wedi bod yn newydd i'r sefydliad.

Ymgysylltu Allanol

5. Roedd yn braf cael treulio amser gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, yn gyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru ac yna yn yr Eisteddfod. Cafwyd rhai digwyddiadau amlwg, defnyddiol, gan gynnwys Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar Ddŵr ar ddydd Llun y Sioe, ond hefyd llawer mwy o gyfleoedd anffurfiol i siarad am ein gwaith ac ennyn diddordeb pobl yn yr ystod enfawr o faterion rydym yn ymdrin â nhw. Roeddwn yn arbennig o falch o'n llwyddiant yng Ngwobrau Coedwigaeth De-ddwyrain Cymru yn y Sioe. Rydym wedi ymrwmo i noddîr gwobrau hyn ers pedair blynedd, ac mae hyn wedi cael croeso mawr gan y gymuned Goedwigaeth yng Nghymru. Braff hefyd oedd cyflwyno ein Rhaglen Mawndiroedd yn yr Eisteddfod (diolch yn fawr i Geraint Davies am gynnal hon) a mynd â chriw mawr o Eisteddfodwyr allan i Gors Caron i weld ein gwaith adfer sydd ar y gweill.
6. Ynghyd â chydweithwyr y Tîm Gweithredol, bûm yn crwydro llawer dros yr haf, gan dreulio amser gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid. Cefais innau hefyd gyfle i gerdded Cors Caron gyda thîm LIFE, a gweld â'm llygaid fy hun effaith eu gwaith dros nifer o flynyddoedd ar y dirwedd a'r cynefin hynod hwn. Cefais fy nhaith gerdded a sgwrs flynyddol gyda Coed Cadw yng Ngregynog, gan glywed am y gwaith maent yn ei wneud gyda'r Ymddiriedolaeth newydd i wella eu rheolaeth o'r safle pwysig hwn. Ymwelais hefyd ag Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur i gwrdd â'u Cadeirydd, Andrew Green, a'r Ymddiriedolwyr, i siarad am eu cynlluniau ar gyfer y safle, a'i berthynas ag YGLIC, a'r gwaith adfer rydym yn ei wneud yn hen fwynglawdd metel Abbey Consols.
7. Treuliais ddiwrnod gwych gyda thîm y Cronfeydd Dŵr yng Nghoedwig Gwydir, yn edrych ar y gwaith maent wedi'i wneud yng Nghyffty a'r Tywysog Llywelyn, ac yn cerdded drwy rai o'r safleoedd newydd maent yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd. Y diwrnod canlynol, treuliais amser ym Mhen Llŷn gyda chydweithwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr undebau ffermwyr, Cyngor Gwynedd a Dafydd Wynne Finch yn cerdded drwy un o'r ffermydd a fu'n rhan o gynllun peilot Talu am Wasanaethau Ecosystemau, a chlywed mwy am y ffordd mae Dafydd wedi symud i fodol adfywiol o ffermio llaeth. Pan oeddwn yng Nghaerdydd, fe wnes i gwrdd ag Auriol Miller o'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA) a Tim Moss, sydd bellach wedi dechrau fel

Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru. Ar-lein, cefais gyfarfod rhagarweiniol da iawn gyda Phrif Weithredwr (eithaf) newydd Ystad y Goron, yn ogystal â chyfarfod Ruth Marks i siarad am strategaeth newydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

8. Yn ddiweddarach ym mis Awst, croesawodd CNC y Gweinidog, Julie James AS, i Brownhill, y safle a brynwyd yn gynharach eleni i gael Coetir Coffa a gwneud gwaith plannu cydadferol. Gyda Sarah Jennings a chydweithwyr CNC, rhanddeiliaid lleol a chynrychiolydd o'r Gynghrair Cefn Gwlad yn bresennol, bu'r digwyddiad llwyddiannus yn fodd i'r ymwelwyr ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'n cynigion a gwerthfawrogi pwysigrwydd y safle wrth fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur, a choffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod pandemig Covid.
9. Ar 26 Awst, ymwelodd y Gweinidog hefyd â Gwasanaethau Dadansoddi CNC yn y labordy ym Mhrifysgol Abertawe. Cafodd ei gynnal gan Gareth O'Shea, gyda'n Pennaeth Tystiolaeth, Chris Collins, a Phennaeth Lleuedd De-orllewin Cymru, Martyn Evans, yn bresennol. Roedd y Gweinidog yn gallu cyfarfod â'r tîm ehangach a mynd o amgylch y cyfleuster, sydd wedi'i leoli yn etholaeth y Gweinidog, sef Gorllewin Abertawe.

Cyfathrebu

10. Bu'r haf, fel bob amser, yn gyfnod eithriadol o brysur i'r tîm Cyfathrebu. Yn sgil y tywydd poeth a sych a gafwyd dros y cyfnod hwn, a chadarnhad o sychder ar gyfer de-orllewin Cymru, bu'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr adnoddau dŵr a physgodfeydd i reoli nifer o geisiadau dyddiol am gyfweiliadau gan gyfryngau'r teledu, radio, print ac ar-lein, yn genedlaethol a rhanbarthol, a diweddariadau ar effeithiau amgylcheddol. O ystyried y cyfnod estynedig o dywydd poeth a sych a maint y diddordeb yn y cyfryngau, lluniwyd rhestr o lefarwyr penodedig i sicrhau bod y cyfweiliadau'n cael eu rhannu'n effeithiol ar draws y sefydliad.
11. Bu'r tîm hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol i fynd ati i hyrwyddo negeseuon atal tanau gwyllt a thanau glaswellt gyda'r ymgyrch #DawnsGlaw, a hyrwyddo negeseuon diogelwch dŵr agored a hamddena cyfrifol dros wyliau'r haf, drwy dynnu sylw cyson at negeseuon y Cod Cefn Gwlad ar draws ein platfformau cyfryngau cymdeithasol.
12. Gyda chalendr digwyddiadau'r haf ar y gweill, manteisiodd y tîm Cyfathrebu ar gyfleoedd i ymgysylltu â phartneriaid a hwyluso'r gwaith o ddarparu rhaglenni ymgysylltu ar gyfer cydweithwyr yn ein stondinau yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol. Bu'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn fewnol ac yn Llywodraeth Cymru i reoli elfennau logisteg a chyfathrebu'r gynhadledd llygredd dŵr yn y Sioe Frenhinol.

13. Mae rheoli ceisiadau gan y cyfryngau a materion sy'n ymwneud yn ehangach ag ansawdd dŵr yn parhau i ddominyddu gweithgarwch y tîm – yn fwyaf nodedig ynghylch cyhoeddi'r adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer cwmnïau dŵr, prynu tir ar gyfer plannu coed a Deuffenylau Polychlorinedig (PCBs). Cafodd y ffigurau ar stoc eogiaid a brithyllod yn afonydd Cymru sylw eang hefyd, yn ogystal â'r stori am ailddarganfod tegeirian prin y fign galchog, a ddenodd sylw yn y cyfryngau cenedlaethol.
14. Mae cyfathrebu am ein gweithgareddau gorfodi wedi parhau'n ddi-oed dros y cyfnod hwn. Mae sawl canlyniad proffil uchel yn y llys a'r sancsiynau a roddwyd am amrywiaeth o weithgareddau wedi sicrhau sylw eang yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol – yn enwedig yr euogfarn am yr ymgyrch potsio anghyfreithlon hir-sefydlog ar Afon Teifi.
15. Rydym hefyd wedi mynd ati i hyrwyddo negeseuon am wasanaethau casglu gwastraff anghyfreithlon, cofrestru esemptiadau gwastraff, galw am dystiolaeth rheoleiddio o ran rhyddhau adar hela a phenderfyniad y Bwrdd i gefnogi'r cynllun gweithredu i ddiogelu stociau pysgod. Rydym wedi cyfrannu at amrywiaeth o eitemau yn y cyfryngau, cylchlythyrau, colofnau a sesiynau briffio, ac yn parhau i hyrwyddo sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd wyneb yn wyneb ar nifer o ymgynghoriadau a phrosiectau.

Materion Strategol

Natur am Byth

16. Ddiwedd Awst, cynhaliodd partneriaeth Natur am Byth ymweliad safle deuddydd gan ein prif ariannwr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Roedd hyn ar gais Pennaeth Polisi Tir a Natur y Gronfa Dreftadaeth ar lefel y DU, Drew Bennellick, a Chyfarwyddwr Cymru, Andrew White. Er nad oedd yn gam ffurfiol yn yr adolygiad o gais ariannu cam dau datblygol y bartneriaeth, roedd hwn yn gyfle gwych i ddangos sut mae gweithio mewn partneriaeth yn gweithredu yng Nghymru o dan ein fframwaith deddfwriaethol, i fuddsoddw'r mwyaf y DU mewn treftadaeth naturiol. Gyda Martyn Evans, Pennaeth Lleuedd De-orllewin Cymru, a chydweithwyr cyllid strategol CNC, bu'r tîm Natur am Byth a staff y Corff Anllywodraethol yn arddangos pwysigrwydd defnyddio dull aml-bartner i achub rhywogaethau yng Nghymru. Nododd y Gronfa Dreftadaeth y rôl allweddol y mae CNC yn ei chwarae mewn rhaglenni cymhleth, drwy adeiladu ar ein cylch gwaith statudol unigryw ynghyd ag amrywiaeth o staff profiadol o ddisgyblaethau cyfreithiol, ariannol ac ecolegol – sydd i gyd yn sgiliau hanfodol wrth fynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth.
17. Mae'r cynlluniau safle manwl a'r rhaglenni ymgysylltu â phobl ar gyfer y cais cam dau yn parhau i fynd rhagddynt yn ddi-oed, gydag adolygiad ffurfiol ganol Hydref gan y Gronfa Dreftadaeth i gadarnhau bod cynnydd ar y trywydd iawn i'w gyflwyno ym mis Chwefror 2023. Mae pob un o'r deg partner wedi ailedrych ar y chwyddiant sylfaenol a chyllidebau costau byw gan arwain at godiad o dros £300k ar draws y cyfnod cyflawni

pedair blynedd a ragwelir (2023 – 27). Mae CNC yn parhau i drafod yn gyson â Llywodraeth Cymru ynghylch eu hymrwymiad ariannol parhaus i'r rhaglen, ac mae ein cyrff anllywodraethol partner wedi cynyddu targedau arian cyfatebol o incwm elusenol i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau. Mae Swyddfa Rheoli Rhaglen CNC yn rhoi ei sicrwydd ar gyfer y rhaglen gyfan yn gynnar ym mis Rhagfyr 2022, cyn i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC roi eu cymeradwyaeth ym mis Ionawr.

Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

18. Cynhaliodd y Prif Weinidog Gynhadledd yn y Sioe Frenhinol ar 18 Gorffennaf 2022, a gwahoddwyd CNC a nifer fawr o randdeiliaid iddi. Roedd y pwyslais ar gydgyfrifoldeb am leihau defnydd gormodol o ffosffad ar dir fferm, gollyngiadau o systemau carthffosiaeth ac o danciau septig. Fe'i gwnaeth yn glir nad yw'r ateb yn nwylo unrhyw un sefydliad, ond bod angen i bawb gamu i'r adwy a gweithio'n galed i sicrhau newid. Heriwyd pob sefydliad drwy ofyn iddynt beth arall y gallent ei wneud, gydag ymatebion amrywiol.
19. Mae datganiad gan y Gweinidog wedi'i gyhoeddi ers hynny sy'n nodi'r cytundeb y daethpwyd iddo ynghylch wyth maes ymyrryd sy'n cynnwys: datblygu Map Trywydd hirdymor a Chynllun Gweithredu Afonydd ACA; ariannu Byrddau Rheoli Maetholion gan gynnwys adolygiad o strwythurau llywodraethu; galluogi Atebion ar sail Natur; nodi a gweithredu mesurau tymor byr priodol e.e. unedau trin carthion cryno dros dro tra bod y gwelliannau i'r gwaith trin tymor hwy yn cael eu gosod; Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Cymru Gyfan; dewislen gyfunol o gamau gweithredu lliniarol ac ymyriadau posibl; caniatâd i ddalgylchoedd; a llwyfan ar gyfer gwrthbwysu maetholion, gan gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer masnachu maethynnau.
20. Mae CNC wrthi'n ystyried ein rôl a'r camau gweithredu y gellir eu cyflawni gennym ar gyfer y Cynllun Gweithredu, gan gydnabod ein bod eisoes yn cymryd rhan mewn rhai o'r wyth maes hyn, ac yn arwain arnynt, drwy ein Prosiect Afonydd ACA mewnol.
21. Rydym wedi cwblhau'r fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cyngor Cynllunio i awdurdodau cynllunio, a rannwyd yn ffurfiol gyda'r awdurdodau hynny ar 15 Gorffennaf ac a gyhoeddwyd wedyn ar ein gwefan. Mae'r fersiwn hon yn cynnwys newidiadau yn y testun i wella eglurder, gan gynnwys nodi'r safbwyntiau ar gael gwared â ffosfforws mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff preifat a chyngor ar slwtsh, a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu i leihau nifer yr ymholiadau a gawn mewn perthynas â cheisiadau unigol.
22. Mae'r adroddiadau modelu dosraniad ffynonellau drafft wedi'u cyhoeddi ar gyfer Afon Dyfrdwy, Afon Gwy, Afon Wysg ac Afon Teifi. Bydd rhagor o waith sicrhau ansawdd yn cael ei wneud i'w gynnwys yn nhrefodaethau ehangach y cwmni dŵr yn ddiweddarach eleni. Rydym wedi datblygu ein Datganiad Safbwynt Polisi Niwtraliaeth Maetholion sy'n cael ei gymeradwyo'n fewnol ar hyn o bryd. Mae Arup wedi'u comisiynu i ddatblygu

canllawiau CNC ar ddefnyddio cyfrifanellau cyfrifo maetholion. Rydym mewn trafodaethau ynghylch cael datblygwyr i dalu am stripio ffosffad, er mwyn sicrhau y datblygir yr ACA, heb effeithio arni.

23. Mewn perthynas â'n llif gwaith monitro a thystiolaeth, mae tasgau allweddol wedi'u nodi, gan gynnwys ymchwiliadau i fethiannau ACA, asesu ein rhaglen fonitro a bylchau yn y dystiolaeth. Ar gyfer trwyddedu, rydym wedi cyhoeddi sefyllfa interim ragofalus nad yw'n caniatáu unrhyw ffosfforws ychwanegol i mewn i ACA sy'n methu. Rydym yn gweithio i ddatblygu meini prawf sgrinio newydd. Rydym hefyd yn edrych ar opsiynau mewn perthynas ag adolygu trwyddedau sy'n cyd-fynd â'r targedau llymach newydd. Rydym hefyd wedi sefydlu ffrwd waith newydd yn edrych ar ddeunyddiau at dir a beth yw'r bylchau o ran rheolaethau.

Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Cilfach Tywyn

24. Rydym wedi cynnal adolygiad helaeth o gostau a buddion Gorchymyn Rheoleiddio ar gyfer y bysgodfa cocos yng Nghilfach Tywyn, y mae CNC wedi bod yn ei rheoli a'i rheoleiddio ers 2013. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod costau rhedeg y bysgodfa yn fwy na'r incwm o ffioedd y drwydded. Gall y buddion a ddaw yn sgil y Gorchymyn, o ran diogelu buddiannau cadwraeth yr ardal forol warchoddedig o'i mewn, yn ogystal â rheoli'r bysgodfa'n gynaliadwy, gael eu cyflenwi bellach gan ei rheolaeth fel Pysgodfa Gyhoeddus, yn enwedig os bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i fesurau rheoli cocos yng Nghymru yn cael eu gweithredu yn y cyfnod rhwng nawr a diwedd y Gorchymyn Rheoleiddio hwn.

25. Edrychwyd hefyd ar werth y bysgodfa a'r defnydd a wneir o'r trwyddedau. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud cais am Orchymyn Rheoleiddio newydd, felly pan ddaw'r Gorchymyn hwn i ben yn 2025, bydd Cilfach Tywyn yn dychwelyd i fod yn Bysgodfa Gyhoeddus. Rydym wedi bod yn rhannu'r penderfyniad hwn â deiliaid y drwydded a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r penderfyniad ac nid yw wedi mynegi unrhyw syndod. Roedd yr ychydig gasglwyr cocos sydd wedi rhoi adborth hyd yn hyn wedi mynegi peth pryder y byddai effaith ar eu bywoliaeth. Ymddengys mai eu prif bryder bellach yw rheoli'r bysgodfa unwaith y bydd yn dychwelyd i fod yn Bysgodfa Gyhoeddus.

Materion Gweithredol

Sychder a materion cysylltiedig

26. Fel y trafodwyd yng nghyfarfod Diweddariad y Bwrdd ym mis Awst, rydym wedi datgan sychder yn ne-orllewin Cymru ac mae Dŵr Cymru (DC) wedi cyflwyno gwaharddiad cyntaf Cymru ar bibellau dŵr ers 30 mlynedd yn Sir Benfro a rhannau o Sir Gaerfyrddin. Ar adeg ysgrifennu hwn, dyma'r unig ardal yng Nghymru i gael y gwaharddiad, ond mae'n debygol y bydd ardaloedd eraill yn dilyn yn fuan oni bai bod yr amodau'n newid.

27. Rydym wedi gosod hyn o dan ein gweithdrefnau rheoli digwyddiadau, oherwydd fe allai'r effaith fod yn sylweddol ar ein hadnoddau staff.
28. Gallai'r angen i wirio cydymffurfiaeth, gweithredu camau dilynol ac ymateb yn barhaus i ddigwyddiadau o'r sychder sy'n datblygu fod yn sylweddol, ac ar yr adeg honno byddai angen i ni alw ar y Asesiad Risg Effaith Busnes i benderfynu pa waith arall fydd yn dod i ben wrth i ni ganolbwyntio ar hyn. Mae'r tywydd sych parhaus hefyd yn dwysau effaith mathau eraill o ddigwyddiadau, yn arbennig tanau, a lle mae llygredd arall fel gollyngiadau'n digwydd, yna mae'r effeithiau'n llawer mwy a'r angen am bresenoldeb yn fwy difrifol. Drwy gydol misoedd Gorffennaf ac Awst, mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar dimau gweithredol a'n cydweithwyr polisi yn yr Adran Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu.

Bae Caerdydd

29. Yn ystod y tywydd poeth diweddar, bu llifoedd isel o Afon Taf i Fae Caerdydd, ynghyd â thymheredd uchel. Mae'r Tîm Amgylchedd Lleol wedi bod yn trafod gydag Awdurdod yr Harbwr dros yr ychydig wythnosau diwethaf i geisio lleihau'r llif i lawr cyflenwydd y dociau i gynyddu'r llif i'r Bae, a fyddai'n helpu gyda thymheredd a lefelau ocsigen tawdd. Roedd yr ymateb cychwynnol wedi awgrymu nad oedd angen gwneud hyn gan fod lefelau ym Mae Caerdydd yn ymddangos yn iawn, gyda'r llwybr pysgod yn gwbl weithredol.
30. Ar 18 Gorffennaf 22, cawsom gais i leihau llif y llwybr pysgod oherwydd lefelau isel yn y Bae. Fe wnaethom wrthod hyn oherwydd bod angen cynnal llif digonol ar hyd y llwybr pysgod, ac o'r herwydd, bydd angen i Awdurdod yr Harbwr reoli'r lefelau gyda'r Bae trwy ddulliau eraill (lleihau'r llif i gyflenwydd y dociau a llai o ddefnydd o'r lociau). Cafwyd adroddiadau hefyd am nifer cynyddol o algâu ac mae samplau'n cael eu cymryd. Os canfyddir algâu gwyrddlas, byddai angen atal chwaraeon/gweithgareddau dŵr ym Mae Caerdydd, ac efallai na fyddai hyn yn cael ymateb cadarnhaol.

Llyncdwll yn Afon Ewenni

31. Yn dilyn adroddiadau am lif isel ddechrau Awst, cadarnhaodd tîm Canol De Cymru fod yna llyncdwll ar wely afon Ewenni. Oherwydd y llyncdwll, mae llif y dŵr o fewn sianel yr afon wedi'i ddargyfeirio o dan y ddaear trwy'r llyncdwll, ac wedi gadael tua 1km o wely'r afon yn agored heb unrhyw lif. O ganlyniad, roedd cannoedd o bysgod yn sownd mewn pyllau bach ynysig o ddŵr heb unrhyw fodd o ddianc. Oherwydd y tywydd poeth, roedd y pysgod bron yn sicr o farw, felly llwyddodd CNC i'w hachub. Llwyddodd swyddogion i rwydo dros 600 o bysgod a'u symud i ran fwy diogel, i lawr yr afon (pysgod bach yn bennaf fel pilcod, gwyrachod barfog a phennau lletwad, ond hefyd brithyllod a changhennau glas). Mae asesiadau'n mynd rhagddynt o ran yr opsiynau tymor hwy sydd ar gael i reoli goblygiadau'r llyncdwll.

Diwrnod hyfforddi tanau gwyllt gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

32. Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, cynhaliodd CNC ddiwrnodau hyfforddi tanau gwyllt a hofrenyddion ger Coedwig Llanwynno yn y de a ger Caernarfon yn y gogledd. Cafodd swyddogion y Gwasanaeth Tân ac Achub a CNC o'r timau rheoli tir a gweithrediadau coedwigoedd, gan gynnwys swyddogion dyletswydd rheoli tir, arddangosiadau o gyfarpar diffodd tân a rheoli tir, fel y peiriannau torri toriadau tân newydd a brynwyd drwy'r prosiect Llethrau Llon. Fe wnaethant ddysgu sut y gellir defnyddio'r hofrennydd ar alwad i ymladd tanau gwyllt ar dir a reolir gan CNC, neu sy'n agos ato. Cawsant hefyd weld yr hofrennydd yn diffodd tân o bellter agos. Yn ogystal, roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr angen i dimau integreiddio arferion rheoli tanau gwyllt yn eu cynlluniau adnoddau coedwigoedd, er mwyn rheoli'r perygl o danau gwyllt yn y dyfodol.

Prosiect Afon Dyfrdwy LIFE

33. Fe wnaeth prosiect Afon Dyfrdwy LIFE gael gwared â Rhyd Morlas ym mis Medi 2021 gan ei bod yn rhwystr rhannol i bysgod mudol. Mae hyn yn rhan o waith parhaus y prosiect i drawsnewid Afon Dyfrdwy a'i dalgylch drwy adfer yr afon a'r cyffiniau yn ôl i'w cyflwr naturiol. Ddydd Mawrth 10 Awst, fe wnaethom gwblhau ein harolygon electrobysgota yn Nant Morlas, a nododd fod eogiaid llawn dwf a oedd yn dychwelyd wedi cael mynediad i'r nant yn ystod y gaeaf blaenorol ac wedi llwyddo i silio uwchben y man lle cafwyd gwared ar y rhyd. Roedd arolygon electrobysgota blaenorol wedi dangos nad oedd unrhyw eogiaid wedi silio am o leiaf dair blynedd cyn i'r rhyd gael ei symud.
34. Trwy gael gwared ar y rhyd, rydym wedi caniatáu i eogiaid llawn dwf sy'n dychwelyd i gael mynediad at fannau silio o ansawdd da. Pellter o 60 metr yn unig oedd rhwng y strwythur a'r cydlifiad ag Afon Ceiriog, sy'n ymuno ag Afon Dyfrdwy yn is i lawr, felly roedd yn golygu nad oedd bron y cyfan o Nant Morlas yn hygyrch am y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn ogystal â chael gwared â Rhyd Morlas, bydd prosiect Afon Dyfrdwy LIFE hefyd yn cael gwared â phedair cored arall yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn Afon Dyfrdwy a'i llednentydd, ac yn gosod strwythurau i hwyluso llwybr y pysgod mewn chwe chored arall. Bydd hyn yn gwella mynediad i bysgod ar hyd 88km o afonydd, gan roi budd i amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau.
35. Mae hyn yn newyddion ardderchog ac yn dangos y gwahaniaeth rydym yn dechrau ei gyflawni drwy brosiect Afon Dyfrdwy LIFE.

Ynni Adnewyddadwy'r Môr

36. Mae ynni adnewyddadwy ar y môr yn parhau i fod yn rhan sylweddol o waith achos y môr, ac mae nifer yr achosion yn cynyddu. Mae technolegau newydd ac arloesol, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch sut mae'r dyfeisiau arfaethedig hyn yn rhyngweithio â rhywogaethau symudol, yn enwedig mamaliaid y môr, yn berygl penodol o safbwynt caniatadau. Er ein bod wedi gallu defnyddio dull rheoli wedi'i addasu i reoli'r perygl

hwnnw, gyda gofynion monitro sylweddol a dull graddol sy'n golygu y gellir gwneud defnydd bach ohono i ddechrau, ni ellir cynyddu hyn hyd nes y bydd y canlyniadau monitro yn dangos nad oes effeithiau andwyol ar y rhywogaethau symudol hynny, ac mae risg y gallai monitro ddangos fel arall o hyd.

37. Hefyd, dylid nodi nad sicrhau caniatâd yw diwedd y broses i ddatblygwyr a swyddogaethau cynghori CNC. Mae disgwyl y gall ein harbenigwyr barhau i gynghori'r datblygwyr ar ôl cael caniatâd, yn enwedig o ran y dull rheoli ymaddasol, felly mae'r goblygiadau o ran adnoddau yn parhau i fod yn her.
38. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn yr Archwiliad Dwfn ar Ynni Adnewyddadwy, lle cafwyd argymhelliad i fynd ati ar unwaith i adolygu'r anghenion o ran adnoddau a'r opsiynau ar gyfer Rhaglen Ynni Adnewyddadwy'r Môr CNC. Mae'r opsiwn presennol sy'n cael ei symud yn ei flaen yn cynnwys ail-fuddsoddi'r hyn a gafwyd o'r Ynni Gwynt a gynhyrchwyd ar YGLIC i roi gwell adnoddau i CNC fel y gall gyfrannu at y gwaith o ymdrin â heriau o ran caniatadau ym maes yr argyfwng hinsawdd yng Nghymru, yn enwedig cyfleoedd ynni adnewyddadwy'r môr, yn ogystal â gwynt ar y tir.

Gwerthu Pren

39. Mae E-Werthiant mis Hydref yn cael ei baratoi ar hyn o bryd; mae ein cwsmeriaid pren yn profi marchnad ddi-fynd a heriau economaidd sylweddol. Rydym yn ymwybodol o'r heriau hyn, yn enwedig o ran y peryglon gyda therfynau credyd a llif arian ac rydym yn monitro hyn yn agos.

Busnes Mewnol

Adnewyddu

40. Mae ein ffrwd waith Gofod Strategol yn gwneud cynnydd da a bydd yn cyflwyno strategaeth adeiladau ddrafft erbyn diwedd Hydref, a ddaw gyda chynllun cyflawni ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig. Cyhoeddir papur opsiynau erbyn diwedd yr haf, a fydd yn archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan opsiynau terfynu prydles sydd ar ddod. Fel rhan o'r gwaith o adnewyddu'r strategaeth adeiladau, mae swyddfa Cantref Court yn Nhrefynwy i fod i gau erbyn diwedd mis Medi.
41. Mae ein ffrwd waith Cefnogi Pobl yn y broses o ailddrafftio amrywiaeth o bolisiau pobl i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn galluogi ffyrdd newydd o weithio ac yn cefnogi dull gweithio hybrid.
42. Mae ein ffrwd waith Gofod Ystwyth yn gweithio i ddarparu manau gwaith hyblyg arbrofol ar chwe safle dros y gaeaf. Mae dyluniadau wedi'u comisiynu a disgwylir i'r gwaith ddechrau yn yr hydref.

43. Mae contractau cyflenwi Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen (HVO) ar waith i ddisodli diesel coch mewn cerbydau gweithredol.

Rhagolwg

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – Dydd Iau 6 Hydref

Galwad Diweddariad y Bwrdd – Dydd Mercher 12 Hydref

Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – Dydd Llun 17 Hydref

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – Dydd Gwener 21 Hydref

3edd Cynhadledd Tystiolaeth Fewnol CNC – Dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Hydref

Cyfarfod Bwrdd CNC – Dydd Mercher 16 a dydd Iau 17 Tachwedd (rhithiol)



Papur Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC)
Cyfeirnod y Papur:	22-09-B08
Noddir y Papur gan:	Dr Rosie Plummer – Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
Cyflwynir y Papur gan:	Dr Rosie Plummer
Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Pwnc

1. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion y dylid ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC) ddwyn sylw'r Bwrdd cyfan atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2022.

Diweddariad

Dynodiad Parc Cenedlaethol Posibl

2. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig i ddechrau'r broses ffurfiol o ystyried dynodi tirwedd, mae Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu ac mae bellach yn cwrdd yn rheolaidd i gynllunio ac adolygu cynnydd. Bydd tîm rhaglen sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda staff presennol yn ei le ym mis Hydref. Parhau mae'r ymgysylltiad anffurfiol ag awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol. Y cam allweddol nesaf fydd comisiynu'r sylfaen dystiolaeth ar harddwch naturiol, cyfleoedd hamdden awyr agored a grymoedd ar gyfer newid, ac asesu pa mor briodol yw'r dynodiad gan gynnwys profi mecanweithiau a threfniadau rheoli amgen.

Y Gronfa Rhwydweithiau Natur

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni prosiect i gryfhau cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig a chefnogi adferiad gwyrdd ar gyfer natur a chymunedau. Lanswyd y Gronfa Rhwydweithiau Natur (cylch 2) ym mis Awst, ac yn y cylch hwn bydd yn cynnig grantiau o £30,000 - £1 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n gwella cyflwr a chysylltedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchoddedig. Bydd y gronfa yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchoddedig ac o'u hamgylch, gan helpu i sicrhau buddion iechyd a lles i

bobl sy'n gweithio yn yr ardaloedd, yn byw yn yr ardaloedd ac yn ymweld â nhw. Gan gydnabod bod diogelu'r safle yn dibynnu ar sefydliadau cryf a llywodraethu da, bydd cylch cyllid dau yn cefnogi adeiladu capasiti gan gynnwys: cydnerthedd ariannol, ymgysylltu â'r gymuned, hyfforddiant a rhaglenni prentisiaeth a gwaith cynhwysiant. Rhaid i brosiectau rhwng £30,000 a £250,000 gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025; rhaid i brosiectau rhwng £250,000 a £1 miliwn gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026.

4. Lanswyd y Gronfa Rhwydweithiau Natur 1 ym mis Mawrth 2021. Mae grantiau sy'n amrywio o £53,000 i £500,000 wedi'u dyfarnu i 29 o brosiectau sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd a helpu natur i ffynnu.
5. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gweinyddu'r Gronfa Rhwydweithiau Natur gyda chefnogaeth CNC a LIC. Bydd CNC felly yn rhoi'r gorau i ddatblygu ei raglen grant Cydnerthedd Ecosystemau ei hun. Bydd y bartneriaeth newydd yn caniatáu i CNC, ei phartneriaid a'i rhanddeiliaid gydlyn cyllid uchelgeisiol ar gyfer natur gan osgoi llw o gynlluniau grant a gweinyddiaeth.

Cyllid Cydnerthedd Ecosystem Bioamrywiaeth oddi wrth Raglen Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru

6. Cafodd CNC ddyraniad o £4.5m o Gronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru i helpu i wella cyflwr safleoedd gwarchoddedig. Mae staff i gyflawni'r gwaith hwn yn cael eu recriwtio, gan gynnwys wyth i gyflawni prosiectau morol. Gall capasiti asiantau tir ac argaeledd contractwyr effeithio ar ein gallu i ddarparu'r holl waith hwn.

Rhaglen Hysbysu a Chyflwyno Safleoedd Gwarchoddedig

7. Mae pum safle newydd yn cael eu paratoi i'w dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar ddiwedd 2022/dechrau 2023. Mae gan y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig gyfres o ddyddiadau dal yn y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau y gall ystyried unrhyw wrthwynebiadau sydd heb eu datrys cyn dynodi.

Eitemau sydd i ddod: Cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig 6 Hydref 2022

8. Yn ogystal ag eitemau agenda sefydlog ar y Rhaglen Tirweddau Dynodedig Integredig a'r archwiliad dwf o fioamrywiaeth bydd y cyfarfod nesaf yn cynnwys:
9. Archwiliad dwfn o Risg Strategol 05 (Hyrwyddo Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy), yn dilyn ail-ddatblygu'r Risg hon sydd bellach yn cynnwys ffocws allanol ar arweinyddiaeth a'r cyfleoedd i ddylanwadu ar eraill wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
10. Diweddariad ar gyngor CNC i awdurdodau cynllunio ar ddatblygiadau a fyddai'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws.
11. Adolygiad a diweddariad ar unrhyw ddarpar newidiadau a datblygiadau deddfwriaethol neu genedlaethol / rhyngwladol gyda goblygiadau ar gyfer cylch gwaith y Pwyllgor.
12. Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig.

Papur Bwrdd

Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2022
Teitl y papur:	Diweddariad gan Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyfeirnod y papur:	22-09-B09
Noddir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y papur gan:	Bronwen Martin, Cyngorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y papur	Gwybodaeth

Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Caiff cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn cynnig cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi materion sydd o ddiddordeb cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddariad

Cyfarfod 5 Medi 2022

2. Bydd cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal ar 5 Medi 2022 a bydd yn cynnwys y canlynol:
 - Y Diweddaraaf am Dywydd Sych
 - Cyflwyniad ar Effeithlonrwydd Dŵr
 - Trosolwg o Gynllun Corfforaethol CNC
 - Diweddariadau gan CNC
 - Y Diweddaraaf gan Aelod-sefydliadau

3. Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

4. Prif ddiben Is-grŵp y Fforwm yw pennu cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal sector ffermio ffyniannus trwy ddilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi, a buddsoddi), a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

11 Gorffennaf 2022

5. Cafwyd cyflwyniad gan aelod o Is-grŵp y Fforwm a Chadeirydd y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen yn ymwneud â'r gwaith parhaus ar Fesurau Amgen. Daeth Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i rym ar 1 Ebrill 2021 ond byddant yn mynd trwy gyfnodau pontio tan 1 Awst 2024, pan fo'r holl fesurau'n ofynnol. O fewn y Rheoliadau hyn, ceir cyfle i gynnig mesurau amgen a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried; Rheoliad 45 'Mesurau Amgen'. Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ynglŷn â'r Rheoliadau newydd, aeth Is-grŵp y Fforwm ati i sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen bach am gyfnod penodol i archwilio mesurau amgen posibl. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys trosolwg o'r modd mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a chynigiwyd cyfle i aelodau'r Is-grŵp ofyn cwestiynau ynglŷn â'r broses.
6. Ymhellach, cyflwynodd Llywodraeth Cymru daflen newydd yn dwyn y teitl 'Allyriadau Amonia Amaethyddol', gyda'r bwriad o'i lansio yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol.
7. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp y Fforwm ar 19 Medi 2022.
8. Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2022
Teitl y papur:	Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 1
Cyfeirnod y papur:	22-09-B11
Noddir y papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch
Cyflwynir y papur gan:	Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch
Diben y papur	Cynnal trafodaeth
Crynodeb	Trafod Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 1

Cefndir

1. Dyma grynodeb o'n perfformiad o ran Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod Chwarter 1. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg o'r modd mae CNC wedi rheoli Llesiant, Iechyd a Diogelwch trwy Chwarter 1 2022/2023.

Crynodeb

2. Mae'r penawdau sy'n deillio o Chwarter 1 2022/2023 yn cynnwys:-
3. **Adolygu digwyddiadau difrifol.** Adolygwyd dau ddigwyddiad difrifol trwy ddefnyddio'r weithdrefn ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol. Roedd a wnelo'r digwyddiadau hyn â gweithgareddau coedwigaeth ac aelod o'r cyhoedd. Mae adolygiad o ddigwyddiad difrifol yn ymwneud â choedwigaeth wedi cael ei ddsbarthu ar ffurf ddrafft fel y gellir cyflwyno sylwadau terfynol arno. Mae adolygiad o ddigwyddiad difrifol yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd wedi cael ei gwblhau ac mae camau gweithredu wedi cael eu neilltuo.
4. **Digwyddiadau angheuol.** Yn anffodus, cafwyd dwy farwolaeth ar Ystad CNC yn ddiweddar. Roedd y ddwy'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd. Yn y digwyddiad cyntaf, disgynnodd unigolyn o uchder mewn ardal rhaeadrau; yn yr ail, digwyddodd damwain beic mynydd yn Bike Park Wales. Mae'r awdurdodau statudol perthnasol wrthi'n cynnal eu hymchwiliadau er mwyn gallu rhoi gwybodaeth i unrhyw gwest gan y Crwner.

Agorwyd Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol, ond fe'u gohiriwyd hyd nes y clywir beth fydd canlyniadau'r cwest.

5. **Anafiadau ac Anafiadau Adroddadwy Lle Collwyd Amser RIDDOR** – Dau Anaf RIDDOR a dim Anaf Adroddadwy Lle Collwyd Amser ar gyfer CNC yn ystod Chwarter 1. Mae'r ystadegau hyn yn cymharu'n fras â'r cyfnod hwn y llynedd. Mae'r arfer o gofnodi peryglon wedi cynyddu yn ystod y chwarter hwn o gymharu â'r un chwarter y llynedd.
6. **Y diweddaraf ynghylch y Safon Iechyd Corfforaethol.** Bydd proses ailachredu rithwir yn cael ei chynnal lle bydd modd i CNC ymestyn ei ddyfarniad 'arian' am 12 mis (Archwiliad Statws Uwch). Y bwriad yw gwneud hyn ym mis Rhagfyr.
7. **Llesiant.** Ym mis Mehefin, llofnododd CNC yr Addewid Menopos yn y Gweithle. Mae CNC yn un o blith nifer fechan o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i lofnodi'r addewid i ymrwymo i lesiant menywod yn ystod y menopos.

Goblygiadau ehangach

Proposed	18.228	Regulatory activities	Waste	Determination of an application of a grant or refusal of deployment	REGBB	Environmental Permitting Regulations (EPR) Regulations 13, 14, 15, 17, 18, 20, 21, 24, 25, 27 and Part 1 of Schedule 5 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 7	Permitting Team Leader (Grade 7)	No
Proposed	18.229	Regulatory activities	Waste	Withdrawal of a deployment	REGBB	Environmental Permitting Regulations (EPR) Regulations 22 and 23 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 7	Place Team Leader (Grade 7)	No

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Sail dystiolaeth ofynnol ar gyfer gwella ansawdd dŵr yng Nghymru
Cyfeirnod y Papur:	22-09-B14
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y Papur gan:	Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth Alun Attwood, Rheolwr Monitro ac Adrodd
Diben y Papur	Trafodaeth

Fersiwn

1. Mae problemau diweddar ansawdd dŵr wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu cael gafael ar sail dystiolaeth effeithiol er mwyn gwneud diagnosis o achosion a blaenoriaethu camau gweithredu effeithiol ar gyfer gwelliannau.
2. Mae'r Bwrdd wedi gofyn i ni ystyried sut beth fydd sail tystiolaeth effeithiol ar gyfer ansawdd dŵr, ac esbonio sut rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a chymhwyso'r dystiolaeth o fewn cyfyngiadau adnoddau.
3. Rydym yn ystyried hyn o fewn cyd-destun ehangach adnewyddu ein Strategaeth Dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a lledaenu tystiolaeth ar draws holl ystod gweithgareddau CNC.

Cefndir

4. Bu cynnydd da o ran taclo llygredd gros yn afonydd Cymru dros y 20-30 mlynedd diwethaf, gyda 44% o gyrff dŵr afonydd yn ennill Statws Ecolegol Da a 95% o ddyfroedd ymdrochi naill ai'n Dda neu'n Ardderchog. Ceir tystiolaeth o welliannau wrth i rywogaethau dŵr glân ddychwelyd i afonydd a oedd wedi'u llygru yn y gorffennol – yn arbennig yr eog, bronwen y dŵr a dyfrgwn. Mae llawer o'r gwelliant hwn wedi deillio o reoleiddio ac uwchraddio gwaith trin carthion a ffynonellau pwynt eraill i leihau achosion o ollwng llygryddion metel a glanweithiol. Llwyddwyd i wella ansawdd dŵr yn aruthrol hefyd diolch i ffrwyth cydweithio CNC a rheolwyr tir a'n

gwaith atal llygredd ar lawr gwlad, er enghraifft, adfer dyfroedd y pyllau glo yn gweithio ar y cyd â'r Awdurdod Glo, a gwella ansawdd dŵr ymdrochi drwy fynd i'r afael â rhai agweddau ar arferion ffermio gwael. Mae effeithiau dyddodiadau asid ac asideiddio y gorffennol wedi'u gwyrddroi hefyd.

5. Dros y degawd diwethaf mae gwelliannau ansawdd dŵr wedi sefydlogi. Mae hyn yn amlwg yn y dirywiad mewn cyrff dŵr sy'n ennill Statws Cemegol Da a dros hanner cyrff dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn methu eu safon ffosfforws. Mae cyfraddau gwella biolegol a chemegol mewn cyrff dŵr trefol hefyd wedi arafu.
6. Nododd ein hasesiad diweddar o Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) a gwblhawyd yn 2021 bod gollyngiadau mwynglawdd (metelau), llygredd gwledig o amaethyddiaeth (gwaddod a maetholion), tarddle penodol o lygredd (ffosffad), a llygredd trefol a thrafnidiaeth (cemegion) fel y pwysau mwyaf sylweddol bellach sy'n effeithio ar ansawdd dŵr. Mae'r pwysau hyn yn cynrychioli set fwy cymhleth o broblemau na'r 'atebion haws' oedd yn llywio gwelliannau ansawdd dŵr yn y gorffennol. Maent yn codi o gyfuniad o darddleoedd penodol a gwasgaredig, ac mae llawer yn halogyddion newydd neu rai 'sy'n dod i'r amlwg' a all fod yn barhaus a bio-gronol. Mae'r rhain yn cynnwys microblastigau, plaladdwyr a chynnyrch fferyllol, ac nid yw llawer ohonynt yn cael eu monitro ar hyn o bryd. Mae rhyngweithio posibl â newid hinsawdd hefyd yn arwain at risgiau 'sawl straen' lle mae'r cynnydd yn nhymheredd y dŵr, llif uchel eithafol a sychder (fel yn 2022) yn newid y dull o ryddhau a gwanhau ac yn newid effeithiau biolegol llygryddion.
7. Yn erbyn cefndir amgylchiadau sy'n newid a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion ansawdd dŵr, nid yw dyraniadau adnoddau CNC ar gyfer monitro ansawdd dŵr wedi datblygu'n gyfochrog â hynny. Yn 2019 (y flwyddyn lawn olaf o fonitro cyn cyfyngiadau Covid) dim ond 16000 o samplau ansawdd dŵr a gasglwyd gennym o gymharu â 30000 o samplau yn 2012.
8. Mae angen dealltwriaeth a dulliau newydd o fynd i'r afael â phroblemau ansawdd dŵr, wedi'u hategu gan sail dystiolaeth gadarn ac effeithiol sy'n llywio camau gweithredu. Mae'r dull confensiynol o fonitro ansawdd dŵr, sy'n cynnwys casglu samplau cemegol a biolegol y dyfroedd i asesu 'cyflwr' ein hafonydd, wedi darparu'r dystiolaeth i fynd i'r afael â rhai agweddau ar darddle penodol o lygredd, ond mae'r ystod esblygol o lygryddion, rhyngweithio rhwng tarddleoedd, ac effeithiau hinsoddol yn gofyn am ffordd well o weithredu.

Asesiad

9. Mae'r gwaith presennol i ymchwilio i faterion ewtroffigedd mewn afonydd ACA ac effeithiau gollyngiadau gorlif carthffosiaeth cyfunol (CSO) wedi amlygu bylchau yn ein sylfaen dystiolaeth ansawdd dŵr sy'n cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn effeithiol.
10. Dau ffactor pwysig wrth ystyried cwmpas a math o dystiolaeth ansawdd dŵr yw **graddfa ofodol a chryfder y dystiolaeth**.
 - a. *Graddfa ofodol.* Mae'r casgliad o dystiolaeth ar raddfeydd gofodol gwahanol yn hanfodol i'r ddealltwriaeth o faterion ansawdd dŵr. Mae monitro sentinel ar raddfa genedlaethol yn caniatáu inni ganfod pwysau sy'n newid a phwysau sy'n

dod i'r amlwg ar ansawdd dŵr, gan helpu i werthuso polisiâu a mesurau cenedlaethol ar yr un pryd. Mae monitro ymchwiliadol mwy 'ystwyth' ar raddfeydd dalgylch a lleol yn caniatáu inni dargedu materion/ problemau ansawdd dŵr fesul sector, tarddle, neu lygrydd, a gwerthuso ymyriadau. Rydym yn pennu'r sefyllfa genedlaethol drwy rwydwaith cynrychiadol ('sentinel') o bwyntiau samplu ansawdd dŵr. Ar raddfeydd dalgylch a lleol mae angen gwneud gwaith samplu gofodol-ddwys ar gyfer problemau penodol ansawdd dŵr neu effeithiau biolegol er mwyn pennu achosion ac effeithiau manwl. Mae'r agwedd ar raddfa amser hefyd yn bwysig, er enghraifft, wrth ystyried natur ddeinamig gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol a digwyddiadau amaethyddol, a'r rhyngweithio rhwng digwyddiadau hinsoddol ac ansawdd dŵr.

- b. *Cryfder tystiolaeth.* Byddwn bob amser yn cael ein herio gan y lefelau amrywiol o hyder yn ein tystiolaeth ansawdd dŵr. Cwestiwn allweddol yw **pa gryfder neu bwysau tystiolaeth sydd ei angen arnom i gefnogi cyflwyno gwelliannau ansawdd dŵr**, neu o'i roi ffordd arall, **pa lefel o dystiolaeth sy'n ddigon da?** Gellir dangos cryfder cymharol neu sicrwydd y dystiolaeth a geir drwy ffynonellau gwahanol fel a ganlyn:

Gwybodaeth anecdotaidd
Barn anarbenigol
Barn arbenigol
Modelau rhagfynegol (ystadegol, gofodol, proses etc)
Mesuriadau gwirioneddol (arsylwadau, samplu, arolwg)



Sicrwydd cynyddol

11. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwn yn seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, a gall ddod o un ffynhonnell neu gyfuniad o ffynonellau. Ar gyfer gwelliannau ansawdd dŵr bydd yn bwysig ystyried y cryfder (neu lefel yr hyder) sydd ei angen arnom i newid pethau.
12. Mae model DPSIR (**D**riving forces, **P**ressures, **S**tate, **I**mpact, **R**esponse) yn cynnig fframwaith sy'n cael ei dderbyn yn eang i archwilio'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer gwelliannau ansawdd dŵr. Mae'r model yn sail i'n hasesiadau ecosystem yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Mae darlun ar gyfer ffosforws yn afonydd Cymru wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Mae hyn yn dangos lle mae ein tystiolaeth yn gryf, ac yn bwysicach, lle nad yw'r dystiolaeth mor gryf o bosib, a lle mae angen canolbwyntio'n hymdrechion i ddylanwadu ar gamau gweithredu a chanlyniadau.
13. Mae dwy raglen waith fawr wedi'u sefydlu i gydlynu'r ymateb i ffosforws afonydd ACA a phroblemau gollwng gorlif carthffosiaeth cyfunol. Trwy ein Prosiect Afonydd ACA rydym wedi pennu methiannau'r safon ffosforws yn ogystal â'r model dosrannu tarddiad er mwyn penderfynu ar gyfraniadau at lwythi ffosforws o darddiadau gwahanol. Mae'r anghenion tystiolaeth pellach a nodwyd yn cynnwys:
- deall llwybrau ffosforws
 - gwella ein dealltwriaeth o ddosraniad ffosforws o darddiadau gwasgaredig gwledig, gan gynnwys unedau dofednod a llwyrgwmpo
 - asesu effeithiau biolegol
 - ehangu tystiolaeth ar effeithiolrwydd mesurau adfer sy'n seiliedig ar natur, megis gwlyptiroedd a grewyd a lleiniau clustogi

- tystiolaeth i fynd i'r afael â phroblemau ffosforws mewn slwtsh carthion
14. Rydym wedi cynnull *Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru* er mwyn cydlynu camau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol er mwyn rheoli a gwella gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol. Bydd rhaglen fonitro ymchwiliadol yn cael ei sefydlu rhwng CNC a chwmnïau dŵr i gasglu gwybodaeth a phenderfynu ar ofynion hirdymor ar gyfer monitro gorlifiadau gan gynnwys monitro cyfansoddiad gollwng (e.e., halogyddion sy'n dod i'r amlwg) yn hytrach nag amledd gollwng yn unig. Yn uwchgyhadledd ffosffad ddiweddar Prif Weinidog Cymru, fe ymrwymodd cwmnïau Dŵr Cymru/Welsh Water a Hafren Dyfrdwy i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol ar ansawdd dŵr erbyn 2030. Mae Dŵr Cymru/Welsh Water yn cyflwyno £100m o gyllid Cynllun Rheoli Asedau (AMP) i gefnogi'r gwaith hwn a lleihau gollyngiadau ffosforws yn ei waith trin carthion.
15. **Ein dull o fonitro yn y dyfodol.** Rydym yn adolygu ein gwaith monitro ansawdd dŵr i sicrhau ei fod yn darparu'r dystiolaeth a fydd yn cefnogi ein hanghenion yn y dyfodol o fewn ein cyfyngiadau cyllidebol. Mae'r adolygiad yn ystyried ein hanghenion monitro tystiolaeth ansawdd dŵr, cynllun rhwydweithiau a rhaglenni monitro, y dulliau rydym yn eu defnyddio, a sut rydym yn cydweithio â darparwyr tystiolaeth eraill i wneud y defnydd gorau o'r gallu a'r adnoddau ar y cyd. Er mwyn ymateb i'r her ariannol, rydym yn debygol o ddatblygu'r dull 'sentinel' ac 'ystwyth'.
16. **Technoleg ac arloesi.** Nid ydym bob amser yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg nac yn arloesi yn ein gwaith tystiolaeth yn rheolaidd. Er mwyn gwneud defnydd o dechnolegau mwy newydd byddai angen buddsoddiad pellach i wireddu eu manteision llawn ac effeithlonrwydd. Mae'r technolegau sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn cynnwys:
- delweddau synhwyro o bell i gefnogi asesiadau o bwysau ansawdd dŵr seiliedig ar ddalgylch ac olrhain llygryddion mewn afon (gwaddodion a chloroffyl)
 - datblygu 'dalgylchoedd offerynnol' gan ddefnyddio sondiau a synwryddion ansawdd dŵr
 - rhwydweithiau telefesuredig i ganiatáu ffrydiau byw o ddata ansawdd dŵr
 - offer labordy arloesol i wella gallu ac effeithlonrwydd dadansoddi
 - dadansoddi data gwell drwy ddysgu peirianyddol a dulliau eraill
 - dulliau monitro ac asesu biolegol mwy costeffeithiol
17. Mae ein harbenigwyr labordy wedi arloesi gyda datblygu dulliau samplu goddefol mewn afon i fesur ystod o fetelau, plaladdwyr a chemegion diwydiannol. Mae'r broses o gyflwyno hyn wedi'i chyfyngu i ychydig iawn o ddalgylchoedd oherwydd costau ac adnoddau. Byddwn yn archwilio gyda'n harbenigwyr labordai lle gallai rhagor o gyfleoedd fodoli i ddatblygu dulliau monitro a dadansoddi arloesol.
18. **Dadansoddi a modelu gwell.** Gallwn wneud iawn yn rhannol am leihau'n gwaith monitro drwy ehangu ein defnydd o ddadansoddeg data a modelu. Mae'r rhain yn caniatáu inni ragweld cyflwr ansawdd dŵr lle mae bylchau monitro, a gwella ein dealltwriaeth o bwysau ansawdd dŵr trwy gyfuno setiau data fel y rhai a ddarperir gan wyddonwyr dinasyddion. Efallai na fydd cymaint o hyder yn y dystiolaeth a gynhyrchir o gymharu â mesuriadau gwaith maes, ond mae'n aml yn ddirprwy

derbyniol a bydd yn caniatáu targedu mwy effeithiol o ymdrechion monitro yn y dyfodol. Her allweddol yw datblygu arferion ailadroddadwy sy'n caniatáu inni ddiweddarau ac ymestyn ein dadansoddiadau heb fawr o amser nac ymdrech.

19. Enghraifft o ddadansoddiad gwell yw dull dadansoddol 'prawf o gysyniad' a ddatblygwyd yn ddiweddar i ragfynegi crynodiadau ffosffad ym mhob corff dŵr afon gan ddefnyddio dull dysgu peirianyddol. Mae'r dull yn cyfuno setiau data ar orchudd tir, topograffi, gollyngiadau, da byw, a phoblogaeth, gyda data monitro, ac fe'i datblygwyd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
20. Enghraifft arall yw lle cynhaliwyd gwaith modelu o lwythi ffosfforws yn afonydd ACA gan ddefnyddio meddalwedd modelu SAGIS. Datblygwyd SAGIS yn bennaf er mwyn helpu i werthuso ansawdd elifion tarddle penodol ond gellir ei ddefnyddio hefyd i amcangyfrif llwythi o ffynonellau eraill ac ar gyfer llygryddion eraill. Byddai datblygu modelau pellach yn ein helpu i ddeall y llwythi cymharol o ffynonellau gwasgareddig gwahanol yng nghefn gwlad, gan gynnwys unedau dofednod, tir âr, a choedwigaeth.
21. **Gwyddoniaeth Dinasyddion.** Mae llawer o fentrau gwyddoniaeth dinasyddion ar gyfer monitro ansawdd dŵr yn bodoli ac yn cynnig cyfleoedd pwysig i ymgysylltu, a darparu data lle mae gwybodaeth yn bodloni safonau ansawdd priodol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda grwpiau gwyddoniaeth dinasyddion ar afon Gwy a gyda'r *Rivers Trust Catchment Systems Thinking Cooperative* (CaSTCo) a ariennir gan Ofwat, sy'n archwilio dulliau partneriaeth o wella ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys afon Wysg. Rydym yn cynllunio buddsoddiad pellach er mwyn caniatáu mwy o gydweithio â grwpiau gwyddoniaeth dinasyddion, gan gydnabod yr angen am fframwaith partneriaeth fel bod pawb yn gwbl glir o ran cymhwysedd y dystiolaeth a gasglwyd.
22. **Gwaith cydweithredol i wella'r sail dystiolaeth.** Mae mentrau fel y *Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd* yn dangos manteision gweithio ar y cyd i ddatrys problemau ansawdd dŵr. Mae'n amlwg nad oes gan un sefydliad unigol y cylch gwaith na'r ystod o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen, er mwyn mynd i'r afael â'r materion cymhleth ar ei ben ei hun. Yr her i CNC yw adeiladu ar y dulliau partneriaeth hyn. Gall partneriaethau allanol cryf ein galluogi i fanteisio ar gyfranwyr mwy deinamig, megis prifysgolion, wrth dreialu neu ddatblygu dulliau a thechnolegau newydd.
23. Wrth gamu ymlaen, yr her yw gwneud defnydd gwell o'r dystiolaeth ansawdd dŵr a gasglwn drwy greu cynhyrchion tystiolaeth wedi'u dadansoddi a'u dehongli, a'u rhannu'n gyhoeddus. Trwy wneud hyn gallwn annog cyfranwyr dylanwadol i ddefnyddio'r dystiolaeth hon er mwyn llywio camau gweithredu gan ddylanwadu ar bolisiâu'r llywodraeth a buddsoddiadau sectoraidd. Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi nifer cyfyngedig o gynhyrchion tystiolaeth graidd ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru, a gwefannau MapDataCymru (porth geo-ofodol Llywodraeth Cymru) a Water Watch Wales, ond gallwn wneud llawer mwy i roi cyhoeddusrwydd i'n tystiolaeth.

Crynodeb

24. Mae angen i ni ychwanegu at y mathau a'r defnydd o dystiolaeth i fynd i'r afael â'r problemau cymhleth sy'n effeithio ar ansawdd dŵr. Mae angen rhagor o dystiolaeth i ddeall yr holl ffynonellau llygredd sy'n cyfrannu at broblemau ansawdd dŵr, ynghyd â thystiolaeth gryfach i bennu effeithiolrwydd mesurau adferol. Mae llenwi'r bylchau tystiolaeth hyn yn bwysig er mwyn caniatáu targedu gweithredoedd yn effeithiol a rhoi mwy o hyder mewn buddsoddiad.
25. Mae penderfyniadau ar gyfer CNC o ran beth yw canolbwynt ein hymdrechion tystiolaeth mewnol. Fel y corff sydd â'r prif gyfrifoldeb dros fonitro ansawdd dŵr yng Nghymru, byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth ar gyflwr ein hafonydd. Ond mae manteision pwysig i'w cael o arloesi a gwneud defnydd gwell o dechnolegau, fel dadansoddi data a modelu. Bydd angen i ni ddatblygu ein galluoedd ymhellach yn y meysydd hyn, yn ogystal â chydweithio mwy â'n partneriaid i ddefnyddio'r sgiliau cyfunol i'r eithaf.

Argymhellion

26. Gofynnir i aelodau'r bwrdd ystyried y canlynol fel ffordd gyffredinol o lywio ein dull o gasglu tystiolaeth o ansawdd dŵr yn y dyfodol:
 - a) beth yw sail dystiolaeth effeithiol ar gyfer ansawdd dŵr, gan gydnabod y materion a'r problemau amrywiol, cymhleth ac esblygol sydd angen eu blaenoriaethu a mynd i'r afael â nhw o safbwynt ansawdd dŵr.
 - b) sut y dylem lenwi'r bylchau tystiolaeth, gan ystyried cryfder a graddfa'r dystiolaeth sydd ei hangen, a'r cyfloedd sy'n bodoli gyda thechnolegau a dadansoddeg data newydd.
 - c) sut y dylem weithio gyda'n partneriaid a'r byd academaidd i ddatblygu'r sail dystiolaeth, gan gydnabod y sgiliau a'r wybodaeth sydd gan sefydliadau eraill o bosib, a'r cyfyngiadau o ran adnoddau CNC.

Risgiau allweddol

27. Gall methu â datblygu a chryfhau'r sail dystiolaeth olygu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i dargedu camau gweithredu'n effeithiol a rhoi hyder yn y buddsoddiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr.
28. Gall diffyg cyllid ein hatal rhag arloesi a buddsoddi yn yr ystod lawn o dechnolegau newydd o chwiliedyddion maetholion i seilwaith data i feddalwedd ddadansoddol a recriwtio staff gyda'r sgiliau technegol gofynnol.
29. Gall methu â chydweithio'n llawn â phartneriaid olygu colli cyfleoedd a bod unrhyw gynnydd o ran mynd i'r afael â materion ansawdd dŵr yn araf neu'n aneffeithiol.
30. Bydd y gwaith arfaethedig o adnewyddu ein Strategaeth Dystiolaeth a'r Cynllun Gweithredu ategol, a chwblhau ein Hadolygiad Monitro Dŵr Croyw, yn darparu'r fframweithiau ar gyfer rheoli a lliniaru'r risgiau hyn i'r perwyl gorau.

Y camau nesaf

31. Bwrw ymlaen â'r *Prosiect Afonydd ACA* a'r *Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd* i fynd i'r afael â phroblemau cyfredol ansawdd dŵr.
32. Adnewyddu ein Strategaeth Dystiolaeth a'n Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig i ddarparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflwyno dystiolaeth a gefnogir gan Bwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth CNC.
33. Parhau â'r Adolygiad Monitro Dŵr Croyw i ddatblygu ein dull o fonitro a dadansoddi ansawdd dŵr yn y dyfodol.
34. Datblygu dull gweithredu ar gyfer gweithio gyda gwyddonwyr dinasyddion a'u data.

Goblygiadau ariannol

35. Does dim asesiad wedi'i wneud o'r gost datblygu'r sail dystiolaeth angenrheidiol ar ansawdd dŵr. Drwy ymarfer llinell sylfaen diweddar Llywodraeth Cymru, fe wnaethom amcangyfrif y gost ychwanegol o ddarparu lefel wasanaeth uwch ar gyfer monitro ansawdd dŵr (20% o gynnydd) ar £1.2m. Mae hyn yn cynnwys samplu ansawdd dŵr, dadansoddi mewn labordy, rheoli data a gweithgarwch dadansoddi data.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

36. Nid yw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei wneud ar gyfer yr adroddiad hwn ond bydd yn ofynnol wrth adnewyddu'r Strategaeth Dystiolaeth a'r cynlluniau cysylltiedig.

Mynegai atodiadau

Atodiad 1 Gofyniad gwerthusiad o dystiolaeth DPSIR i fynd i'r afael ag achosion o ffosfforws mewn afonydd

Annex 1

DPSIR Appraisal of Evidence requirements to address Phosphorus in Rivers

	<i>National</i>	<i>Catchment</i>	<i>Water body/local</i>
Driving Forces Socio-economic <i>(Industry, energy, transport, tourism, agriculture)</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Prof Haygarth paper • Rephokus project • Options for systemic change in food system 	<ul style="list-style-type: none"> • Rephokus Wye catchment study 	
Pressures <ul style="list-style-type: none"> - Climate Change - Point Source Pollution - Diffuse Pollution - Land-Use Change 	<ul style="list-style-type: none"> • Detailed understanding of P releases from land use practices including agriculture and forest management • Fate and transport of P in soils 	<ul style="list-style-type: none"> • SAGIS source apportionment and loading modelling for P • Catchment pressure assessments • Improved understanding of P loadings from rural land-use and septic tanks • Contribution of CSOs to P loadings • Understanding of P nutrient pathways (source to receptor) • Understanding why P levels continue to rise in some catchments 	<p>-----></p> <ul style="list-style-type: none"> • WFD risk assessments • Investigations – reasons for not achieving Good Status
State <ul style="list-style-type: none"> - Physical - Chemical - Biological 	<ul style="list-style-type: none"> • Surveillance monitoring – biological (inverts, diatoms, macrophytes) and physchem (OP, Total P) • P Trend analyses (medium-high confidence) 	<ul style="list-style-type: none"> • Operational monitoring • Investigative surveys (eg. U Wye biological survey) • SAC species feature monitoring • P trend analysis (low confidence) • Continuous monitoring (non-P dets) • Catchment nutrient balance 	<p>-----></p> <p>-----></p> <ul style="list-style-type: none"> • Continuous monitoring (non-P dets) • WFD classification assessment • SAC compliance assessment • Citizen science data • Continuous monitoring (P auto sampling)
Impact <ul style="list-style-type: none"> - Human health and welfare - Ecosystems 	<ul style="list-style-type: none"> • WFD P standard in rivers • SAC P target in rivers 		
Response	<p>←-----</p> <ul style="list-style-type: none"> • Good evidence on the costs & effectiveness of tried and trusted measures (eg. end of pipe solutions) • Improved evidence on the effectiveness of nature-based solutions (eg wetlands, use of algae, buffer strips) • Options for safe disposal of P in sewage sludge • Alternatives to land spreading of biowastes 	<p>Rephokus -----</p> <p>Nutrient calculators -----</p> <p>-----</p>	<p>-----></p> <p>-----></p> <p>-----></p>

Bold = identified gaps in evidence non-bold = sources of available evidence

Rhagolwg y Bwrdd – Tachwedd						
	Eitem	Preifat/ Cyhoeddus	Cwmpas	Diben	Amser	Noddwr
1	Agor y Cyfarfod	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		5	Cadeirydd
2	Adolygu Cofnodion	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		5	Cadeirydd
3	Diweddariad y Cadeirydd	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		10	Cadeirydd
4	Diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		10	Clare Pillman
5	Diweddariad y Pwyllgor	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		10	Cadeiryddion Pwyllgorau
6	Adroddiad Cyllid	Preifat	Eitem Sefydlog	Cymeradwyo'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf	20	Rachael Cunningham
7	Diweddariad C2 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes	Cyhoeddus	Craffu	Craffu a chyhoeddi Adroddiad Ch2	20	Claire Pillman
8	Rheoli Llifogydd a Digwyddiadau – Diweddariad Parodrwydd y Gaeaf	Preifat	Craffu	I ddiweddarau'r Bwrdd ar barodrwydd y gaeaf ar gyfer rheoli llifogydd a digwyddiadau	45	Ceri Davies
9	Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch	Angen arweiniad	Craffu	Craffu ar gynnydd Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch	30	Prys Davies
10	Cyflwyniad o Gynlluniau Busnes gan y Cwmnïau Dŵr	Cyhoeddus		Trafod y cynlluniau busnes a gyflwynwyd gan y cwmnïau dŵr	90	Ceri Davies
11	Strategaeth Ddigidol - cynllun cychwynnol	Cyhoeddus	Cymeradwyaeth	Craffu ar y cynllun cychwynnol o ganlyniad i gymeradwyaeth y Strategaeth Ddigidol - I gynnwys trafodaeth am gyfryngau cymdeithasol	30	Sarah Jennings

Rhagolwg y Bwrdd – Tachwedd						
	Eitem	Preifat/ Cyhoeddus	Cwmpas	Diben	Amser	Noddwr
12	Dynodiad Parc Cenedlaethol Newydd arfaethedig	Preifat	Trafodaeth	Trafod y dynodiad Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig	30	Ceri Davies
13	Cylch Gorchwyl y Pwyllgor	Cyhoeddus	Cymeradwyaeth	Cymeradwyo'r diweddariad i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor	10	Prys Davies
14	Trafodaeth Strategol ar Arloesi	Cyhoeddus	Trafodaeth	Trafodaeth Strategol ar Arloesi	60	Ceri Davies
15	Natur a Ni		Trafodaeth	Diweddariad	20	Prys Davies
16	Cynllun Corfforaethol		Trafodaeth	Trafodaeth ar gyfer llywio'r Bwrdd a syniadau'r Bwrdd	120	Prys Davies
17	Adolygiad o'r Digwyddiad	Private	Trafodaeth	I drafod yr Adolygiad Digwyddiad	30	Ceri Davies
18	Rhagolwg y Bwrdd	Cyhoeddus	Trafodaeth	Trafod eitemau sydd ar y gweill	5	Prys Davies
19	Unrhyw Fater Arall	Cyhoeddus a Phreifat		Os caiff unrhyw fater ei godi	5	

Papur Bwrdd

Dyddiad y Cyfarfod:	22 Medi 2022
Teitl y papur:	Adolygiad Cylch Gorchwyl Bwrdd CNC
Cyfeirnod y Papur:	22-09-B16
Noddir y Papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Paratowyd y Papur gan:	Clare Jones, Cyngorwr Arbenigol Arweiniol - Llywodraethu
Cyflwynir y Papur gan:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Diben y Papur	Cymeradwyaeth
Crynodeb	Craffu, trafod, a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl i Fwrdd CNC ac ystyried a oes angen unrhyw welliannau ychwanegol.

Cefndir

- Fel rhan o'n hymrwymiad i lywodraethu da, mae CNC wedi ymrwmo i adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn flynyddol. Cyflwynir Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau a adolygwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd i'w gymeradwyo.
- Mae'r papur hwn yn cyflwyno Cylch Gorchwyl Bwrdd CNC ar gyfer craffu, trafod, a chymeradwyo. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u tracio yn Atodiad 1 a bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu cynnwys yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod.

Risgiau a chyfleoedd

- Mae llywodraethu da yn hanfodol i'r sefydliad, gan gefnogi penderfyniadau CNC, tryloywder, gwella gwerth am arian, etc. Bydd y gweithgareddau a gwmpesir yn y diweddariad hwn yn cyfrannu at y broses hon.

Goblygiadau ehangach

- (a) **Cyllid:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r papur hwn.

- (b) **Cydraddoldeb:** Mae'r gofynion llywodraethu yn effeithio'n gyfartal ar bob aelod o staff. Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfer unrhyw grwpiau neu nodweddion gwarchoddedig.
- (c) **Cyfreithiol:** Ni cheisiwyd am unrhyw gyngor cyfreithiol wrth ddrafftio'r papur hwn gan nad oes angen hyn.
- (d) **Diogelu Data:** Nid oes unrhyw oblygiadau o ran diogelu data.

Camau Nesaf

- 4. Ar ôl cael ei gymeradwyo, bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gyfieithu a'i lanlwytho i wefan a mewnrwyd CNC.

Argymhelliad

- 5. Gwahoddir y Bwrdd i graffu, trafod a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl Bwrdd CNC ac ystyried a oes angen unrhyw welliannau pellach.

Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl Bwrdd CNC



Board Terms of Reference

Terms of Reference agreed: Sept 202~~2~~⁴

Next review date: Sept 202~~3~~²

1. Purpose

1.1. The role of the Natural Resources Wales (NRW) Board is to:

- 1.1.1. establish the vision and strategic direction and maintain oversight of NRW;
- 1.1.2. provide effective strategic leadership; defining and approving strategic direction and setting challenging objectives;
- 1.1.3. promote high standards of public finance, upholding the principles of regularity, propriety and value for money;
- 1.1.4. ensure that NRW's activities are conducted efficiently and effectively; and
- 1.1.5. oversee and monitor top-level performance to ensure that NRW fully meets its aims, objectives and performance targets.

1.2. The Board must ensure that effective arrangements are in place to provide assurance on risk management, governance and internal control. It must establish an Audit and Risk Assurance Committee chaired by a non-executive member (but not the Chair) to provide it with independent advice. The Board is also expected to assure itself of the effectiveness of internal control and risk management systems.

2. Scope

2.1 The Board is responsible for defining and approving the long-term vision and strategy for NRW to meet its responsibilities and duties under the Natural Resources Body for Wales (functions) Order 2013, Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015, Environment (Wales) Act 2016 and all other relevant legislation.

2.2 Members of the Board are collectively responsible for ensuring that in the exercise of its functions NRW has due regard to the climate and nature emergencies, to pursuing and promoting the sustainable management of natural resources, and to ensuring the principles of sustainable management of natural resources are applied, so far as is possible within its powers.

3. Responsibilities

3.1. The responsibilities of the Board include to:

- 3.1.1. establish the vision, strategic aims and objectives of NRW consistent with its overall purpose and within the context of the Welsh Government's strategic aims and the policy and resources framework determined by the Minister;
- 3.1.2. ensure that NRW operates within its statutory and delegated authority, and that it discharges its statutory duties under the relevant Acts, other Statutory obligations and the Framework Document;
- 3.1.3. promote high standards of public finance, upholding the principles of regularity, propriety and value for money. In particular, instructions must not be given to the Chief Executive which conflict with their duties as NRW's Accountable Officer;
- 3.1.4. demonstrate high standards of corporate governance and integrity, and ensure that effective arrangements are in place to provide assurance on risk management, effective internal control and good record keeping;
- 3.1.5. demonstrate NRW's values in all endeavours, individually and collectively, modelling consistency of behaviours across the organisation;
- 3.1.6. appoint, with the prior approval of the Minister, a Chief Executive; and
- 3.1.7. hold the Chief Executive to account for performance and delivery against strategic and business plan priorities, objectives and budgets.

4. Board reserved matters

4.1. The matters set out in the table below are reserved to the Board.

Governance and control:

- 4.1.1. review and approve the Board's overall corporate governance arrangements;
- 4.1.2. approve substantive amendments to the Board's reserved matters;
- 4.1.3. approve terms of reference of the Board's committees, sub-committees, or working groups;
- 4.1.4. approve Board minutes;
- 4.1.5. approve Board and committee schedules of meetings;
- 4.1.6. approve delegation of any of the Board powers to the Chief Executive;
- 4.1.7. approve the scheme of financial delegation, covering delegation to the Chief Executive or Executive Team members;
- 4.1.8. approve the Statutory and Legal Scheme, covering delegation to the Chief Executive or Executive Team members;

- 4.1.9. approve the Framework Document with the Welsh Government, or successor documents;
- 4.1.10. approve the strategy and principles for management of risk.

Appointments:

- 4.1.11. appoint and dissolve Board committees, sub-committees, working groups, and their Chairs;
- 4.1.12. appoint and terminate the appointment of the Chief Executive, subject to the consent of the Welsh Government Minister responsible;
- 4.1.13. appoint Investigating and Inquiry Leads.

Strategy, Business Plan and budget:

- 4.1.14. approve (including varying) Corporate Strategies and Strategic Plans, subject to approval by the Welsh Government;
- 4.1.15. approve the annual Business Plan and annual budget, subject to approval by the Welsh Government;
- 4.1.16. approve NRW's key performance indicators;
- 4.1.17. ensure the statement of accounts complies with any directions given by the Minister, Auditor General, and good practice;
- 4.1.18. approve and present NRW's annual report and accounts to the Auditor General for Wales, the Minister, and the National Assembly for Wales.

Operational decisions:

- 4.1.19. approve the policy content of [corporate, strategic, documents and corporate policy that relate to NRW's strategy, purpose, and long-term vision](#);
- 4.1.20. [the Board has delegated the approval of the annual pay award to the People and Remuneration Committee \(PaRC\)](#) approve the pay remit;
- 4.1.21. approve the Scheme of Charges;
- 4.1.22. approve major organisational developments and changes to the organisation.

4.2. The Board retains oversight of all responsibilities delegated to the Board committees.

4.3. There may occasionally be a need to consider items between meetings on the Board's behalf in order to expedite urgent business or in the event of a major incident. If the need for urgent consideration of major and/or controversial items arises, the Board will normally delegate the matter to a specially convened Urgency Committee consisting of its Chair and two further Board members. If an item arises that is not major or controversial but is time critical, the Chair may use their discretion on whether to take Chair's action, advised if appropriate by the Board Secretary.

- 4.4. Where Chair's action on time critical items does take place, it will be considered appropriate (where possible) that the Chair seeks the views of members by email before taking their decision. All decisions taken by the Urgency Committee and/or Chair's action should be clearly reported to the Board as soon as possible and recorded in the minutes of its next meeting for information.
- 4.5. These Terms of Reference do not preclude the Chair or the Board deciding other matters, non-reserved, should they come to the Board for discussion or decision.
- 4.6. The Board will normally conduct an annual effectiveness review. This should include a self-review led by the Chair, including feedback from members of the Board, any lessons learned and potential improvements. The Board should consider commissioning an independent external review of effectiveness approximately once every three years.
- 4.7. The terms of reference will be reviewed annually, to ensure they are fit for purpose and functionally effective.
- 4.8. A record of each annual review of effectiveness and terms of reference will be made. Any recommendations for material change will be brought to the attention of the Board for approval.

5. Meetings

- 5.1. The Board will meet six times a year. ~~Non-confidential~~ Discussions will be held in public unless they are considered exempt based on the public vs private criteria approved by the Board. Interim Board updates will be held during the intervening months.
- 5.2. A meeting will be quorate for a particular agenda item if a majority of Board members are present for the whole of the item(s), and as long as the majority of those present are non-executive Board members. Deputies are not permitted.
- 5.3. For the purpose of determining whether a quorum is present, a Board member may be counted in the quorum if they are able to participate in the proceedings of the meeting, including by remote means (e.g. telephone or other digital link) and remain so available throughout the discussion and decision for each item for which they are counted as part of the quorum.
- 5.4. Board members must declare any potential conflict of interest at the relevant meeting, even if already recorded in the published Register of Interest. Any such declaration will be recorded in the minutes of the meeting.
- 5.5. Subject to their declarations of interest (the Chair may ask a Board member to withdraw from the discussion and/or abstain from voting if they feel that the potential for conflict of interest merits it), each Board member shall have the right to vote in any debate and to have their views recorded in the minutes.

- 5.6. In the event of no majority decision, the Chair of the Board shall have a second or casting vote, whether or not they previously voted on the matter.
- 5.7. Board members should not act as “representatives” of any specific sector. Subject to the Conflict of Interest rules, Board members are expected to make use of their wider experience, contributing fully to Board consideration of such issues, whilst making decisions collectively, based on the evidence and relevant criteria, for the benefit of NRW’s objectives.
- 5.8. Board members are expected to observe appropriate confidentiality and discretion in the conduct of matters of the Board and handling/safe-keeping of information and documents, in particular, in relation to any personal, proprietary, or commercial information.
- 5.9. The Board may, without setting any precedent, invite other officials, individuals or representatives of other organisations to attend all, or part of, its meetings. Attendees who are not members of the Board will not be entitled to vote.

6. Administration

- 6.1. The Secretariat will provide the service support for the Board. This includes arranging meetings, preparing agendas and papers, collating documents, communicating with Board members, taking minutes, circulating minutes and any relevant follow up or action points, and filing Board documents in the Document Management System to ensure a formal record is kept.
- 6.2. Agenda items will be agreed in advance with the Chair, and agendas and papers will be circulated one week (seven days) in advance of meetings. Executive Team members will sponsor and introduce agenda items put forward by their Directorate / sponsored business boards.
- 6.3. The Board will maintain a ‘forward look’ of standing items, which will be reviewed at each meeting and maintained by the Secretariat. Additional agenda items will be collated by the Secretariat and planned through the forward look and agreed with the Chair in advance. Items will be supported with written papers and/or oral presentations. Unless authorised by the Chair, late papers will not be circulated, and the item will be removed from the agenda.
- 6.4. Minutes will be taken of the meetings of the Board. This will include a record of decisions and reasons for decisions, and actions, together with a compiled action log to be maintained by the Secretariat and reviewed at each meeting. Draft minutes of the meeting and agreed action points will be agreed by the Chair and circulated within 10 working days of the meeting, with final minutes being circulated within 20 working days. Actions will be closed when the Board has seen sufficient evidence of completion or that the action has become absorbed into business as usual.

- 6.5. Previous minutes and action logs will be reviewed at each meeting. Minutes will be confirmed at the following meeting.
- 6.6. Papers and minutes from the non-confidential Board items will be translated and published on the NRW website.

7. Membership

- 7.1. The Chair, the Deputy Chair and the Board members are appointed by the Welsh Ministers. Article 3 paragraph 2 of the Schedule to the NRW (Establishment) Order 2012 specifies that there should be no fewer than five nor more than 11 non-executive members in addition to the Chair.
- 7.2. The appointments are made in accordance with the Commissioner for Public Appointments' Code of Practice for Ministerial appointments to public bodies. The length of each appointment is determined by Welsh Ministers in the appointment letter. In accordance with the Code, no individual will serve in any one post for more than 10 years.
- 7.3. The Establishment Order specifies that the Chief Executive must be a member of the Board. The Board can choose to appoint up to four further NRW employees (referred to in the Establishment Order as "executive members").

[END OF TERMS OF REFERENCE]

Current Members (as at Sept 2024)

Sir David Henshaw, Chair ([term end date 31 October 2023](#))

Professor Steve Ormerod, Deputy Chair ([term end date 31 October 2025](#))

Julia Cherrett, Senior Independent Director ([term end date 31 October 2025](#))

Karen Balmer ([term end date 8 May 2023](#))

Catherine Brown ([term end date 31 October 2022](#))

Geraint Davies ([term end date 31 October 2024](#))

[Paul Griffiths](#)

Zoë Henderson ([term end date 8 May 2023](#))

Professor Calvin Jones ([term end date 28 February 2023](#))

Mark McKenna ([term end date 28 February 2023](#))

Dr Rosie Plummer ([term end date 31 October 2024](#))

Professor Peter Rigby ([term end date 31 October 2023](#))

Clare Pillman, Chief Executive/Accounting Officer